# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Chwefror 2026

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 - 14.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd**

**2.1 SL(6)734 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

**Offerynnau nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

2.2 SL(6)735 – Gorchymyn Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2026

Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd

2.3 SL(6)738 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 – 13.45)

Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd

3.1 SL(6)731 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2026

(Tudalennau 4 – 7)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-05-26 – Papur 3 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 21 Ionawr 2026

3.2 SL(6)732 – Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026

(Tudalennau 8 – 9)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 4 – Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)733 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw) 2026**

(Tudalennau 10 – 11)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**3.4 SL(6)737 – Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 12 – 15)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**3.5 SL(6)740 – Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 16 – 17)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 7 – Adroddiad drafft

**Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd**

**3.6 SL(6)725 – Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026**

(Tudalennau 18 – 20)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 8 – Adroddiad drafft

LJC(6)-05-26 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 20 Ionawr 2026

**3.7 SL(6)728 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 21 - 24)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 10 – Adroddiad drafft

LJC(6)-05-26 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 20 Ionawr 2026

**3.8 SL(6)736 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 25 - 27)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 12 – Adroddiad drafft

**3.9 SL(6)739 – Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) (Diwygio) 2026**

(Tudalennau 28 - 31)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 13 – Adroddiad drafft

LJC(6)-05-26 – Papur 14 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 27 Ionawr 2026

**3.10 SL(6)741 – Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 32 - 34)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 15 – Adroddiad drafft

LJC(6)-05-26 – Papur 16 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, 27 Ionawr 2026

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(13.45 – 13.50)

### 4.1 SL(6)688 – Cod Trefniadaeth Ysgolion

(Tudalennau 35 – 40)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-26 – Papur 17 – Adroddiad

LJC(6)-04-26 – Papur 18 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.50 – 14.00)

**Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, neu'r hyn a elwid gynt yn weithdrefn negyddol**

### 5.1 SL(6)715 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026

(Tudalennau 41 – 45)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-26 – Papur 19 – Adroddiad

LJC(6)-04-26 – Papur 20 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, neu'r hyn a elwid gynt yn weithdrefn gadarnhaol ddrafft**

**5.2 SL(6)727 – Rheoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026**

(Tudalennau 46 – 51)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 21 – Adroddiad

LJC(6)-05-26 – Papur 22 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.3 SL(6)729 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 52 – 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 23 – Adroddiad

LJC(6)-05-26 – Papur 24 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.4 SL(6)730 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) (Diwygio etc.) 2026**

(Tudalennau 60 – 62)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 25 – Adroddiad

LJC(6)-05-26 – Papur 26 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.00 – 14.05)

**6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol**

(Tudalennau 63 – 66)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 27 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru, 3 Chwefror 2026

LJC(6)-05-26 – Papur 28 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 3 Chwefror 2026

LJC(6)-05-26 – Papur 29 – Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau, 5 Chwefror 2026

**6.2 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Cemegau (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio, Darpariaeth Ganlyniadol a Throsiannol) 2026**

(Tudalennau 67 - 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 30 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 2 Chwefror 2026

## 7 Papurau i'w nodi

(14.05 - 14.15)

**7.1 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Adroddiad gwerthuso ar gynlluniau peilot Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig**

(Tudalennau 71 - 72)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 31 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 21 Ionawr 2026

**7.2 Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Cyhoeddi Bil Diwygio Cyfraith Cyfunddaliad a Lesddaliad drafft**

(Tudalennau 73 - 74)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 32 – Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 30 Ionawr 2026

**7.3 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau: Penderfyniad ariannol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

(Tudalennau 75 - 76)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 33 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 2 Chwefror 2026

**7.4 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

(Tudalennau 77 - 79)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 34 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 3 Chwefror 2026

LJC(6)-05-26 - Papur 35 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Llywydd, 2 Chwefror 2026

**7.5 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Adam Price AS: Cynnig i ddileu pwerau cynllunio corfforaethau datblygu trefol**

(Tudalennau 80 - 85)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 36 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Adam Price AS, 3 Chwefror 2026

**7.6 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)**

(Tudalennau 86 - 94)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 37 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**7.7 Gohebiaeth at yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Bil Lles Plant ac Ysgolion**

(Tudalennau 95 - 96)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 38 – Llythyr at yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 3 Chwefror 2026 [Saesneg yn unig]

**7.8 Gohebiaeth gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

(Tudalennau 97 – 98)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 39 – Gohebiaeth gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 3 Chwefror 2026 [Saesneg yn unig]

**7.9 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Llywydd: Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

(Tudalen 99)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 40 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Llywydd: Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), 5 Chwefror 2026

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.15)

## Cyfarfod preifat

(14.15 – 14.30)

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu): Adroddiad drafft

(14.15 – 14.25) (Tudalennau 100 – 108)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 – Papur 41 – Adroddiad drafft

## 10 Cytundebau rhyngwladol

(14.25 - 14.30) (Tudalennau 109 - 113)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 42 - Briff Ymchwil [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 09 Chwefror 2026

## SL(6)734 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 (“Rheoliadau 2015”);
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr presennol i addasu symiau cymorth cynhaliaeth myfyrwyr a lwfansau eraill a chyfraniad ôl-raddedig at gymorth costau yn unol â mesur o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2025 i gynyddu’r capiau ffioedd dysgu israddedig llawn amser a chymhwyso'r capiau hyn i'r holl bersonau cymhwysol ar gyrsiau cymhwysol mewn sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2026. Nid yw codi'r cap ffioedd dysgu yn cynyddu'r ffi ddysgu a godir, sy'n fater i'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

**Fe’u gwnaed ar:** 20 Ionawr 2026

**Fe’u gosodwyd ar:** 22 Ionawr 2026

**Yn dod i rym ar:** 12 Chwefror 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 09 Chwefror 2026

## SL(6)735 – Gorchymyn Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2026

### Gweithdrefn: Dim Gweithdrefn

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn gweddill y darpariaethau yn adran 18 o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2026. Mae adran 18(2)(c) a (5) eisoes mewn grym at y dibenion a bennir yn adran 23(6) o'r Ddeddf.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024

**Fe'u gwnaed ar:** 22 Ionawr 2026

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2026

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 09 Chwefror 2026

## SL(6)738 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r setiau o Reoliadau a ganlyn:

(i) Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019; a

(ii) Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005.

Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud fel a ganlyn:

- estyn yr esemptiad presennol rhag cofrestru ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu sy'n darparu gwasanaethau cymorth o dan gontract i gynnwys hefyd wasanaethau a ddarperir gan bartneriaethau a chyrff corfforedig o dan gontract;
- creu esemptiad ychwanegol rhag cofrestru ar gyfer darparu cwnsela mewn perthynas â mabwysiadu i oedoliolion;
- ddisodli cyfeiriadau at “rhiant naturiol” gyda “rhiant geni” (heb unrhyw newid yn ystyr y term);
- estyn cymhwystra ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu penodol i gynnwys cyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol; a
- phennu bod yn rhaid i ofal seibiant sy'n cynnwys llety gael ei ddarparu o dan ddarpariaethau statudol penodol iddo fod yn gymwys fel gwasanaeth cymorth mabwysiadu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

**Fe’u gwnaed ar:**

**Fe’u gosodwyd ar:** 27 Ionawr 2026

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2026

Eitem 3.1

# SL(6)731 - Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio’r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn mireinio’r ffordd y cymhwysir y meini prawf a ddefnyddir i ddosbarthu eiddo hunanddarpar yn eiddo annomestig yn y system drethiant leol a’i wneud felly’n atebol am dalu ardrethi annomestig.  Rhaid i eiddo o’r fath fod ar gael i’w osod am o leiaf 252 o ddiwrnodau ac wedi ei osod, mewn gwirionedd, am o leiaf 182 o ddiwrnodau o fewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Fel arall, caiff eiddo ei ddosbarthu yn eiddo domestig ac yn atebol am dalu’r dreth gyngor.

Mae’r Gorchymyn yn galluogi nifer gyfartalog y diwrnodau y gosodwyd yr eiddo dros ddwy neu dair blynedd i gael ei ystyried yn dystiolaeth bod y meini prawf wedi eu bodloni, os na chyrhaeddwyd 182 o ddiwrnodau yn ystod y flwyddyn flaenorol.  Mae hefyd yn galluogi lwfans o hyd at 14 o ddiwrnodau y flwyddyn ar gyfer rhoddion elusennol o seibiannau byr i gael ei gyfrif tuag at y meini prawf gosod.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn yn gymwys mewn perthynas â diwrnodau asesu sy'n digwydd ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn annilysu’r Senedd.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn yn nodi pryd y bydd y diwygiadau a'r adrannau newydd a nodir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn yn gymwys. O ystyried y bydd y diwygiadau a'r adrannau newydd yn cael eu cynnwys yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“y Ddeddf”) heb gyfeirio at erthygl 2 o'r Gorchymyn, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam ei bod wedi mabwysiadu'r dull hwn ac a fyddai'n fwy hygyrch i ddarllenydd y Ddeddf pe bai manylion ynghylch pryd y bydd y diwygiadau a'r adrannau newydd yn gymwys wedi'u cynnwys yng ngeiriad y diwygiadau a'r adrannau newydd hynny, fel bod y ffordd y’u cymhwysir yn glir ar

wyneb Deddf 1988. Heb yr eglurder hwn, efallai na fydd defnyddiwr y ddeddfwriaeth yn deall bod gwahanol reolau yn gymwys yn dibynnu ar y diwrnod asesu (fel y'i diffinnir yn erthygl 2) y mae'r defnyddiwr hwnnw'n cyfeirio ato.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd;**

Mae'r Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn ill dau yn cyfeirio at ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan erthygl 2 o'r Gorchymyn. Mae hyn yn ymddangos yn anghywir gan mai erthygl 3 sy'n gwneud diwygiadau i'r Ddeddf honno.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Chwefror 2026**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghoriad ar gynigion i fireinio dosbarthiad eiddo hunanddarpar at ddibenion trethi lleol – crynodeb o'r ymatebion** |
| **DYDDIAD** | **21 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg** |

Heddiw, cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynigion i fireinio'r ffordd y caiff eiddo hunanddarpar ei drin at ddibenion trethi lleol. Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mod wedi gwneud y Gorchymyn sy'n ofynnol i weithredu'r ddau gynnig penodol i fireinio'r ffordd y caiff y meini prawf gosod a ddefnyddir i ddosbarthu eiddo o'r fath eu cymhwyso.

Yn gyntaf, gwnaethom gynnig cyfartaleddu nifer y diwrnodau y gosodwyd eiddo dros sawl blwyddyn i'w ddefnyddio fel tystiolaeth o gydymffurfiaeth, os na chyrhaeddwyd y trothwy gosod eiddo o 182 diwrnod yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bwriad hyn yw rhoi cyfle i weithredwyr gyrraedd y trothwy gosod eiddo o 182 diwrnod unwaith yn rhagor, gan osgoi bod yn atebol am y dreth gyngor, os fyddant wedi methu â chyrraedd y trothwy o drwch blewyn.

Yn ail, cynigiwyd ei gwneud yn bosibl i lwfans o hyd at 14 diwrnod y flwyddyn ar gyfer rhoddion elusennol o seibiannau byr gyfrif tuag at y meini prawf gosod. Bwriad hyn yw osgoi anghymell rhoddion o'r fath a chefnogi'r budd cyhoeddus ehangach y maent yn ei ddarparu.

Yn ogystal, gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar fwriad Llywodraeth Cymru i annog awdurdodau lleol i helpu gweithredwyr hunanddarpar nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gosod ar gyfer ardrethi annomestig drwy broses bontio fesul cam i'r dreth gyngor. Yn ôl y cynigion, byddai’r dreth gyngor yn cael ei chodi ar y gyfradd safonol am y flwyddyn gyntaf, cyn i unrhyw bremiwm ddod yn gymwys.

Cafwyd 1,211 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Rwy’n ddiolchgar i’r rhai a wnaeth roi o’u hamser i ymateb ac rwy’n cydnabod yr ystod o safbwyntiau a rannwyd. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid pob un o'r tri chynnig.

Rwy'n cydnabod y safbwyntiau cryfion ymhlith gweithredwyr hunanddarpar ac eraill am ddyluniad y system trethi lleol. Fel y nodais wrth lansio'r ymgynghoriad, mae ein cynigion yn darparu ymateb, a ystyrir yn ymateb priodol, i faterion a godwyd gan y sector hunanddarpar wrth i'r meini prawf gosod newydd gael eu rhoi ar waith.

Nodwyd safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yn fy natganiad blaenorol ar y mater hwn ac yn yr ymgynghoriad. Gan gydnabod bod 60% o eiddo hunanddarpar eisoes wedi bodloni'r meini prawf gosod, rydym o'r farn o hyd y dylid gosod eiddo am y rhan fwyaf o'r flwyddyn er mwyn iddo gael ei ddosbarthu yn eiddo annomestig at ddibenion trethi lleol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddaf yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu angenrheidiol i alluogi'r cynigion i fireinio'r ffordd y caiff meini prawf gosod eu cymhwyso i ddod i rym o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2026 wedi'i wneud a'i osod gerbron y Senedd at y diben hwnnw.

Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rwyf hefyd wedi penderfynu deddfu ar gyfer eithriad statudol rhag talu premiwm y dreth gyngor, er mwyn sicrhau y caiff y cynnig ar gyfer pontio fesul cam ei gymhwyso yn gyson yn genedlaethol ledled Cymru. Bydd y rheoliadau angenrheidiol i gyflawni'r cynnig hwn yn cael eu datblygu a'u cyflwyno cyn gynted â phosibl, i fod yn gymwys o 1 Ebrill 2027 ymlaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i gyflawni'r newidiadau polisi hyn.

Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn: [Cynigion i fireinio dosbarthiad eiddo hunanddarpar at ddibenion trethi lleol | LLYW.CYMRU]

# SL(6)732 – Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 ("Rheoliadau 2025"). Maent yn disodli cyfeiriadau at orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn Rheoliadau 2025 er mwyn mewnosod, yn lle hynny, y darpariaethau cyfatebol penodol yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (O.S. 2025/864) (Cy. 150). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau i'r diffiniad o "ymgeisydd" er mwyn gwahaniaethu'n gliriach rhwng ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr rhestr plaid, a dileu'r amod ynghylch yr arddull ffont ar gyfer datganiad ymgeisydd.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn annilysu'r Senedd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y rhaglith, nid yw'n ymddangos bod yr adrannau o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 a nodir yn adlewyrchu'n gywir y pwerau galluogi y dibynnwyd arnynt i wneud y Rheoliadau hyn. Mae rhestr y darpariaethau galluogi yn cynnwys adran 26(4) sy'n cynnwys ystod eang o bwerau gwahanol. Fodd bynnag, dylai nodi'r paragraffau perthnasol yn yr is-adran honno sy'n cynnwys y pwerau galluogi y dibynnir arnynt i wneud y Rheoliadau hyn. Mae'n creu problem yn benodol fod adran 26(4)(c) yn ddarostyngedig i weithdrefn wahanol. Os dibynnir ar y pŵer yn adran 26(4)(c), dylai'r offeryn fod wedi'i wneud o dan y weithdrefn gymeradwyo. Ynghyd â hyn, mae'r rhestr yn cynnwys adran 26(8), ond nid yw'n arferol nodi darpariaethau nad ydynt ond yn pennu'r weithdrefn berthnasol y gwneir yr offeryn oddi tani.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 4, mae'n nodi'n anghywir fod Rheoliadau 2025 wedi'u diwygio yn unol â rheoliadau 5 a 6. Mae Rheoliadau 2025 hefyd wedi'u diwygio gan reoliad 7 o'r Rheoliadau hyn. Felly, nid yw rheoliad 4 yn nodi'n gywir ddarpariaethau diwygio y Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 5(d), mewnosodir diffiniad newydd o "ymgeisydd unigol" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2025. Mae'r diffiniad yn cynnwys cyfeiriadau at "etholiad i'r Senedd" ac "ymgeisydd rhestr plaid" sydd ill dau yn dermau a ddiffinnir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("Gorchymyn 2025"). Fodd bynnag, nid oes ystyr wedi'i roi i'r naill na'r llall o'r termau hynny yn y Rheoliadau 2025 presennol. Felly, os bwriedir i "etholiad i'r Senedd" ac "ymgeisydd rhestr plaid" ddwyn yr un ystyr ag a roddir gan erthygl 2(1) o Orchymyn 2025, dylid mewnosod diffiniadau'r termau hynny yn Rheoliadau 2025 hefyd.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 6, mae'n ymddangos bod sawl gwall yn y cyfeiriadau newydd sy'n disodli'r cyfeiriadau presennol yn rheoliad 6(1) o Reoliadau 2025, fel a ganlyn. Yn rheoliad 6(c), dylai gyfeirio at "rheol 31**(1)**" i fod yn fanwl gywir oherwydd dyna'r ddarpariaeth benodol sy'n ymwneud â'r hysbysiad o bleidlais. Yn rheoliad 6(d), dylai gyfeirio at "rheol **31(2)**" yn hytrach na "rheol **32(2**)" oherwydd dyna'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r hysbysiad o sefyllfa pob gorsaf bleidleisio a'r disgrifiad o bleidleiswyr sydd â hawlogaeth i bleidleisio. Yn rheoliad 6(e), dylai gyfeirio at "rheol **64**" yn hytrach na "rheol **62**" oherwydd dyna'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â datgan canlyniadau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl bwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Chwefror 2026**

# SL(6)733 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiadau sy'n ymwneud ag Isafswm Darpariaeth Refeniw) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"), sy'n darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer yr arferion cyfrifyddu sydd i'w dilyn gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, yn ystod pob blwyddyn ariannol mewn cysylltiad â chyllido gwariant cyfalaf yr aed iddo yn y flwyddyn honno neu mewn unrhyw flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn honno, rhaid i awdurdod lleol godi isafswm ar gyfrif refeniw ("isafswm darpariaeth refeniw" neu "IDR") ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i awdurdod lleol gyfrifo swm o IDR y mae'n ei ystyried yn swm darbodus.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddisgresiwn i godi unrhyw swm ar gyfrif refeniw yn ychwanegol at IDR.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 i ddarparu bod gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026, ddisgresiwn i wneud IDR ond nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Mae'r gwelliannau yn darparu bod rhaid i'r cynghorau hynny gyfrifo swm y maent yn ei ystyried yn swm darbodus, pan fônt yn dewis gwneud IDR. Mae paragraff 1.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y bydd Llywodraeth Cymru yn dyroddi canllawiau atodol i'r canllawiau presennol "*mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2026-2027 i ddarparu hyblygrwydd wrth gyfrifo'r hyn sy'n swm darbodus o IDR ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.*"

Mae paragraff 4.5 o'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddatgan:

> *"Mae gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn, gan gynnwys IDR. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r pwysau presennol sy'n wynebu awdurdodau lleol o amrywiaeth o ffynonellau yn sgil chwyddiant a phatrymau o ran y galw am wasanaethau, ynghyd â newidiadau sylweddol o fewn grantiau mawr y DU ac ansicrwydd o gylchoedd gwleidyddol. Mae'r hyblygrwydd tymor byr hwn yn lefel y ddarpariaeth IDR a gymhwysir yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i reoli eu gwaith cynllunio ar gyfer y gyllideb yn y tymor byr a'r tymor canolig. Dewisol yw'r newid hwn, nid gorfodol, a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â mathau eraill o hyblygrwydd megis defnyddio cronfeydd wrth gefn a chyfarwyddydau cyfalaf yn seiliedig ar amgylchiadau penodol awdurdod lleol unigol. Rhaid i unrhyw newid i bolisi IDR awdurdod lleol gael ei gytuno gan y cyngor llawn fel rhan o'r datganiad IDR blynyddol."*

## Gweithdrefn

Gweithdrefn annilysu'r Senedd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn y bloc llofnodi ar ddiwedd y Rheoliadau hyn, nodir yn anghywir mai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yw Jayne Bryant AS. Fodd bynnag, dylai'r bloc hwnnw nodi mai Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yw Jayne Bryant AS.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**28 Ionawr 2026**

Eitem 3.4

# SL(6)737 – Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan adrannau 2(6)(b), 140(7), a 142(4) a (5)(a) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002"). Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae adran 8(1) o Ddeddf 2002 yn diffinio "adoption support agency" ("*asiantaeth cymorth mabwysiadu*") fel ymgymeriad, a diben yr ymgymeriad hwnnw, neu un o'i ddibenion, yw darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Diffinnir gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan adran 2(6) o Ddeddf 2002 fel cwnsela, cyngor a gwybodaeth, ac unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, mewn perthynas â mabwysiadu.

Mae rheoliad 3 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 yn rhagnodi gwasanaethau penodol yn wasanaethau cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 2(6)(b) o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 3(4) o Reoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 yn darparu bod gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u rhagnodi at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 4 yn dirymu Rheoliadau 2019. Mae rheoliad 5 yn cyflwyno diwygiadau canlyniadol.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn annilysu'r Senedd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y 3 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 4.5 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *Mae rhywfaint o orgyffwrdd ac anghysondeb hefyd rhwng y gwasanaethau cymorth mabwysiadu rhagnodedig yn Rheoliadau 2005 a Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019, a all greu heriau i ddarparwyr a chomisiynwyr wrth benderfynu i ba raddau y mae'r ddwy set hyn o reoliadau yn gymwys i wasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol a gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016.*

Diffinnir "Rheoliadau 2005" yn y Memorandwm Esboniadol fel Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 a diffinnir "Deddf 2016" fel Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 8(1) o Ddeddf 2002 yn ychwanegol at y gwasanaethau sydd wedi'u rhagnodi at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002. Roedd Rheoliadau 2019, sydd wedi'u dirymu gan y Rheoliadau hyn, yn rhagnodi gwasanaethau cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002 yn gyffredinol, h.y. nid yn berthnasol i "asiantaethau cymorth mabwysiadu" a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn unig.

Mae rheoliad 3(1)(f) o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r canlynol fel "gwasanaethau cymorth mabwysiadu":

> *(f) cynhorthwy i berthnasau personau mabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed i gael gwybodaeth mewn cysylltiad â'r mabwysiad hwnnw neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'r person mabwysiedig;*

Mae rheoliad 3(4) o Reoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 yn darparu bod gwasanaeth cyfryngol yn wasanaeth cymorth mabwysiadu at ddibenion adran 2(6) o Ddeddf 2002. Ymddengys nad yw'r diffiniad o "gwasanaeth cyfryngol" yn y Rheoliadau hynny yn cynnwys darparu cymorth i berthnasau personau mabwysiedig i gael gwybodaeth yn y modd a nodir yn rheoliad 3(1)(f) o'r Rheoliadau hyn.

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau ai "gwasanaeth mabwysiadu penodedig" yw gwasanaeth o'r fath mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yng Nghymru, yn dilyn dirymu Rheoliadau 2019?

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "rhiant mabwysiadol", mae'r geiriad a ganlyn yn ymddangos ar ddiwedd paragraff (e):

> *ond nid yw'n cynnwys person sy'n llys-riant i'r plentyn neu'n rhiant geni i'r plentyn neu a oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn;*

Yn y diffiniad o "rhiant mabwysiadol" yn Rheoliadau 2019, sydd wedi'u dirymu gan y Rheoliadau hyn, nid yw'r geiriad hwn wedi'i fewnoli ac nid yw'n ymddangos ei fod yn rhan o baragraff (e), ac felly mae'n berthnasol i ddehongli paragraffau (a) i (e).

Er y gall hyn fod yn wall fformatio, lle mae'r geiriad hwn wedi'i fewnoli yn anfwriadol, yr effaith yw y gallai arwain at ddehongliad anfwriadol o'r term diffiniedig. Mae Westlaw wedi cynnwys y geiriad hwn ym mharagraff (e) ac mae'n ymddangos fel a ganlyn:

> *(e) sydd wedi mabwysiadu plentyn sydd wedi cyrraedd 18 oed ar ôl hynny, ond nid yw'n cynnwys person sy'n llys-riant i'r plentyn neu'n rhiant geni i'r plentyn neu a oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn;*

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r geiriad hwn yn rhan o baragraff (e) ai peidio.

Rydym hefyd yn cwestiynu lleoliad "ond nid yw'n cynnwys plentyn mabwysiadol drwy asiantaeth" yn y diffiniad o "plentyn mabwysiadol heb fod drwy asiantaeth". Yn Rheoliadau 2019, ymddengys ei fod yn gymwys i baragraffau (a) a (b) fel ei gilydd, ond mae'r fformatio yn y Rheoliadau hyn yn golygu ei bod yn ymddangos bod y geiriad wedi'i gynnwys ym mharagraff (b).

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 2, diffinnir "rhiant geni" fel a ganlyn:

> *mae i "rhiant geni" ("birth parent") yr un ystyr â rhiant naturiol yng nghyd-destun Deddf 2002;*

Mae'r testun Cymraeg yn nodi bod ganddo'r un ystyr â "rhiant naturiol" yng nghyd-destun Deddf 2002, ond nid yw "rhiant naturiol" yn cael ei ddefnyddio yn Neddf 2002, gan ei bod yn Saesneg yn unig.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl bwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Chwefror 2026**

# SL(6)740 – Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 ("**Rheoliadau 2026**") yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("**Rheoliadau 2015**") a Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 ("**Rheoliadau 2018**").

Mae Rheoliadau 2018 yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu mewn perthynas â sefydlu paneli maethu a'u swyddogaethau, ac mewn perthynas ag asesu darpar ofalwyr maeth. Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a materion cysylltiedig eraill.

Mae Rheoliadau 2026 yn diwygio Rheoliadau 2018 a Rheoliadau 2015 i:

- sefydlu categori penodol o ofalwr maeth sy'n berthynas o fewn y rheoliadau maethu;
- diweddaru'r broses ar gyfer asesu darpar ofalwyr maeth i adlewyrchu gofynion newydd, yn enwedig i'r rhai sy'n berthnasau, yn ffrindiau neu'n bersonau cysylltiedig;
- diweddaru gofynion ynghylch yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol wrth asesu darpar ofalwr maeth sy'n berson cysylltiedig (fel perthynas, ffrind neu rywun sydd â pherthynas sy'n bodoli eisoes â'r plentyn);
- gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau maethu rannu gwybodaeth â'i gilydd heb gost i gefnogi'r broses benderfynu yn well;
- darparu bod rhaid ymweld â phlant mewn lleoliadau gyda phersonau cysylltiedig o leiaf bob 6 mis, a darparu ymhellach fod rhaid adolygu'r lleoliadau hynny o leiaf bob 12 mis.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Craffu ar Rinweddau

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn amlinellu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â Rheoliadau 2026. Mae'n datgan y canlynol:

> *"Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y newidiadau arfaethedig rhwng 4 Awst 2025 a 27 Hydref 2025. Hysbyswyd llawer o randdeiliaid allweddol am yr ymgynghoriad gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr maethu annibynnol, darparwyr maethu'r trydydd sector, a gofalwyr maeth.*
>
> *Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Gwnaed un mân newid o ganlyniad i'r ymatebion - cynnwys cyfeiriad at gyflogaeth flaenorol o fewn Rhan 3 newydd o Atodlen 1 i Reoliadau 2018."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y bydd Rheoliadau 2026 yn ddarostyngedig i Adolygiad Ôl-weithredu. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y canlynol:

> *"Bydd Adolygiad Ôl-weithredu (PIR) yn cael ei gynnal o fewn tair blynedd i gyflwyno Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026. Bydd yr adolygiad yn asesu a yw'r amcanion polisi wedi'u cyflawni, yn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol, ac yn llywio datblygiad polisi yn y dyfodol. Bydd yn cwmpasu tri maes allweddol: trosglwyddiadau gofalwyr maeth, diwygio asesiadau o ofalwyr maeth sy'n berthnasau, ac adolygiadau ac ymweliadau hyblyg ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data meintiol ac ansoddol gan randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr, plant, Swyddogion Adolygu Annibynnol ac awdurdodau lleol. Bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn mesur cydymffurfiaeth, effeithlonrwydd, boddhad a chanlyniadau diogelu. Bydd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn darparu goruchwyliaeth, a bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio diwygiadau yn y dyfodol, diweddaru canllawiau, a rhannu arferion gorau ar draws y sector."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**03 Chwefror 2026**

# SL(6)725 – Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026

## Cefndir a diben

Mae Atodlen 5 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth ynghylch trafodiadau sy'n drafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch at ddibenion y dreth trafodiadau tir.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 i ddarparu bod prynu annedd unigol sy'n drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch yn peidio â bod yn drafodiad o'r fath os yw'r annedd hwnnw yn cael ei lesio wedyn i awdurdod lleol yng Nghymru. Maent hefyd yn darparu bod y dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â thrafodiad sy'n ymwneud â phrynu anheddau lluosog yn cael ei gostwng os yw unrhyw un o'r anheddau hynny yn cael ei lesio wedyn i awdurdod lleol yng Nghymru, yn ddarostyngedig i amodau penodol ym mhob achos.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch hawlio ad-daliadau ac asesu'r dreth trafodiadau tir ymhellach.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw**

**wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig, gan gynnwys y dreth trafodiadau tir a gesglir, i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gostwng atebolrwydd i dalu treth trafodiadau tir o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn Datganiad Ysgrifenedig dyddiedig 20 Ionawr 2026, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS:

> *"[Mae'r Rheoliadau hyn]… yn darparu ad-daliad newydd ar gyfer trafodiadau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir. Bydd yr ad-daliad newydd yn gymwys pan fo person yn prynu annedd sy'n costio £400,000 neu lai sy'n atebol i'r ad-daliad, ac yna'n ei lesio i awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn 18 mis i'r pryniant hwnnw, a phan fo'r les yn bodloni'r amodau yn y rheoliadau.*
>
> *Bwriad yr ad-daliad yw cymell unigolion i lesio eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Gynllun Lesio Cymru, sef cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu tuag at ddarparu cartrefi am renti fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag effaith digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Chwefror 2026**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026** |
| **DYDDIAD** | **20 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** |

Heddiw, gosodwyd rheoliadau drafft i wneud newidiadau i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Mae Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026 yn darparu ad-daliad newydd ar gyfer trafodiadau sy'n ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir. Bydd yr ad-daliad newydd yn gymwys pan fo person yn prynu annedd sy'n costio £400,000 neu lai sy'n atebol i'r ad-daliad, ac yna'n ei lesio i awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn 18 mis i'r pryniant hwnnw, a phan fo'r les yn bodloni'r amodau yn y rheoliadau.

Bwriad yr ad-daliad yw cymell unigolion i lesio eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Gynllun Lesio Cymru, sef cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu tuag at ddarparu cartrefi am renti fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag effaith digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar y rheoliadau ar 10 Chwefror 2026.

**Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026**

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026**

# SL(6)728 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 13 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, sy'n darparu rhyddhad rhag treth trafodiadau tir ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog (a elwir yn rhyddhad anheddau lluosog).

Mae rheoliad 2 yn diwygio paragraff 6 o Atodlen 13 i gynyddu isafswm y dreth trafodiadau tir y mae rhaid ei thalu pan hawlir rhyddhad anheddau lluosog o 1% o'r gydnabyddiaeth sydd i'w phriodoli i anheddau a brynir i 3% o'r gydnabyddiaeth honno.

Mae rheoliad 3 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n darparu nad yw'r Rheoliadau yn effeithio ar drafodiadau tir y rhoddir effaith iddynt yn unol â chontract yr ymrwymir iddo neu a gyflawnir yn sylweddol cyn 13 Chwefror 2026, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu bod rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â threthi datganoledig, gan gynnwys y dreth trafodiadau tir a gesglir, i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu cymhwysiad rhyddhad (rhyddhad anheddau lluosog) rhag treth trafodiadau tir fel y disgrifir uchod.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Chwefror 2026**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio rhyddhad anheddau lluosog y dreth trafodiadau tir** |
| **DYDDIAD** | **20 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** |

Heddiw, mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2026 wedi eu gosod gerbron y Senedd.

[Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2026](#)

[Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2026 / The Land Transaction Tax (Modification of Relief for Acquisitions Involving Multiple Dwellings) (Wales) Regulations 2026](#)

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y rheoliadau yn diwygio cyfradd isaf rheol treth rhyddhad anheddau lluosog y dreth trafodiadau tir.

Mae hyn yn gymwys i'r dreth trafodiadau tir a delir ar bryniant anheddau mewn trafodiadau anheddau lluosog. Mae'n gymwys gan amlaf mewn trafodiadau defnydd cymysg ond gall hefyd fod yn gymwys i drafodiadau sy'n ymwneud ag eiddo preswyl yn unig. Trafodiadau 'defnydd cymysg' yw'r trafodiadau hynny pan fo cyfuniadau o eiddo preswyl ac eiddo amhreswyl yn cael eu prynu gyda'i gilydd.

Mae'r rheol yn nodi bod rhaid i'r atebolrwydd ar bryniant anheddau fod o leiaf 1% o werth yr anheddau hynny.

Mae'r rheol isafswm treth rhyddhad anheddau lluosog yn darparu tegwch mewn trafodiadau lle gallai atebolrwydd treth, fel arall, fod yn isel iawn o ran pryniant rhai eiddo preswyl, o gymharu ag atebolrwydd ar drafodiadau annedd sengl.

Gosodwyd y gyfradd o 1% pan gyflwynwyd y rheol yn rhan o dreth dir y dreth stamp yn 2011 ac nid yw wedi newid ers hynny. Daeth y rheol yn rhan o'r dreth trafodiadau

tir yn 2018. Bydd cynnydd i 3% yn gwella tegwch wrth gynnal triniaethau treth gwahanol fel sy'n briodol ar gyfer trafodiadau anheddau lluosog.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 14 Hydref 2025, cyhoeddais fy mwriad i wneud y newid hwn i gyfradd isaf y rheol dreth, a chyflwyno rheol cydraddoli newydd ar gyfer rhyddhad anheddau lluosog, a hynny er mwyn sicrhau cydraddoldeb fesul annedd rhwng trafodiadau anheddau lluosog ac anheddau sengl sy'n agored i dalu'r cyfraddau preswyl uwch.

Bwriedir y dylai'r rheol arfaethedig newydd ar gyfer cydraddoli fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol lle, pan hawlir rhyddhad anheddau lluosog ar drafodiadau anheddau lluosog sy'n ddarostyngedig i gyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir, mae'r atebolrwydd treth fesul annedd yn is nag y byddai ar gyfer trafodiadau annedd sengl ar gyfer yr un anheddau. Byddai wedi sicrhau y byddai'r atebolrwydd fesul annedd mewn trafodiadau anheddau lluosog gyda rhyddhad anheddau lluosog o leiaf yn hafal i'r trafodiadau anheddau sengl cyfatebol nad ydynt yn gallu elwa ar ryddhad anheddau lluosog.

Nid yw'r rheoliadau drafft yn cynnwys y rheol cydraddoli newydd. Mae diwygio'r ddeddfwriaeth at y diben cymharol gul hwn wedi cyflwyno heriau technegol sylweddol ac yn cynnwys risg o gyflwyno cymhlethdod newydd i'r dreth trafodiadau tir.

Bydd y gwaith ar y polisi a'r rheol, ynghyd ag ystyried y newidiadau deddfwriaethol y mae eu hangen, yn parhau, ond mater i weinyddiaeth yn y dyfodol fydd ystyried y rheol cydraddoli newydd, yn ogystal â'r cwestiwn ehangach a ddylid cadw'r rhyddhad anheddau lluosog, ei wella neu ei ddiddymu.

# SL(6)736 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth o ganlyniad i weithredu darpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022 ("Deddf 2022") yn ehangach yng Nghymru.

Cyflwynodd Deddf 2022 becyn o newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth newydd sy'n rhan o weithredu Deddf 2022 gan Lywodraeth Cymru.

Mae rheoliadau newydd wedi'u cyflwyno sydd â'r nod o ddiwygio'r agweddau gweithdrefnol ar reoli adeiladau, yn enwedig ar gyfer adeiladau risg uwch. Daw'r gweithdrefnau newydd i rym ar 1 Gorffennaf 2026, a nod y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod deddfwriaeth bresennol arall yn parhau i gael ei heffaith bresennol ar ôl y dyddiad hwn.

Mae rheoliadau 2 i 8 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Sir De Morgannwg 1976, Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Cyngor Sir Clwyd 1985, Deddf Gorllewin Morgannwg 1987, Deddf Dyfed 1987, Deddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 a Deddf Aer Glân 1993.

Mae rheoliadau 9 i 12 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005, Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2024 a Rheoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024.

Mae rheoliad 13 yn gwneud darpariaethau trosiannol i sicrhau nad yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn effeithio ar waith adeiladu y rhoddir hysbysiad ar ei gyfer, neu lle caiff cynlluniau eu hadneuo, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y pennawdau italig ar dudalennau 1 i 4, 14 a 16, mae'n nodi bod y Rheoliadau drafft wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru "o dan adran 167(1) i (3) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022". Fodd bynnag, mae'r gofyniad i osod drafft i'w weld yn adran 167(5) o'r Ddeddf honno fel y nodir yn ail baragraff o'r rhagymadrodd i'r Rheoliadau hyn. Felly a ddylid dyfynnu "adran 167(5)" yn y pennawd yn hytrach nag "adran 167(1) i (3)", sef y pwerau galluogi?

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 4(3)(f)(ii)(aa), ymddengys bod gwall teipograffig sy'n golygu bod y diwygiad yn methu â nodi'n gywir y testun presennol i'w ddisodli ym mharagraff (c) o adran 19(7) o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985. Mae'n nodi "plans of the work consisting of, or including, the parking place <u>has</u> been deposited" ond dylai nodi "plans of the work consisting of, or including, the parking place <u>had</u> been deposited", fel y ceir yn nhestun presennol y ddarpariaeth honno.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 8(2)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi y dylid mewnosod y diffiniad newydd ar ôl y diffiniad o "application for building control approval". Ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi y dylid mewnosod y diffiniad newydd ar ôl y diffiniad o "building control approval".

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliadau 3(4), 8(2)(b) a 11(2)(b), mewnosodir diffiniad newydd o "building control authority" yn Rheoliadau Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Aer Glân 1993, a Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2024. Mae'r diffiniad newydd yn nodi ar bob achlysur ""building control authority" means the local authority as stated in section 121A of the Building Act 1984". Fodd bynnag, mae adran 121A o Ddeddf Adeiladu 1984 yn nodi mai'r rheoleiddiwr neu'r awdurdod lleol yw'r awdurdod rheoli adeiladu. Felly, a ddylai gyfeirio at "section 121A(1)(b) and (2) of the Building Act 1984" os mai'r bwriad yw cyfyngu ystyr "building control authority" i'r awdurdod lleol?

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Chwefror 2026**

Eitem 3.9

# SL(6)739 – Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) (Diwygio) 2026

## Cefndir a Diben

Daeth Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) i rym ar 6 Ebrill 2024 ac maent yn cynnwys, ymhlith eraill, ddyletswydd statudol ar feddianwyr mangreoedd annomestig yng Nghymru (gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus a’r trydydd sector) i gyflwyno offer trydanol ac electronig gwastraff bach heb eu gwerthu (“sWEEE”) ar wahân i’w casglu a’u hailgylchu ymlaen.

Bydd Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) (Diwygio) 2026 (“y Rheoliadau hyn”) yn diwygio Rheoliadau 2023 i’w gwneud yn ofynnol i bob mangre annomestig gadw eu sWEEE (nid dim ond sWEEE heb eu gwerthu) ar wahân i’r holl ffrydiau gwastraff eraill a threfnu iddynt gael eu casglu gan gludwr gwastraff trwyddedig neu fynd â hwy i fan gollwng addas i’w hailgylchu. Byddant yn creu rhwymedigaeth gyfatebol ar gasglwyr gwastraff sy’n casglu sWEEE i wneud hynny ar wahân i ddeunyddiau eraill, i beidio â chymysgu sWEEE wedyn a’u hanfon i’w hailgylchu.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o’r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn darparu bod drafft o’r cod ymarfer diwygiedig “Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer Cymru” wedi’i osod at ddibenion gwybodaeth. At hynny, mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,

dyddiedig 27 Ionawr 2026, nodir y bydd fersiwn derfynol y Cod Ymarfer diwygiedig yn cael ei chyhoeddi a'i gosod gerbron y Senedd ar ôl gwneud y Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Chwefror 2026**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gosod Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) (Diwygio) 2026** |
| **DYDDIAD** | **27 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Heddiw rwyf wedi gosod **Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) (Diwygio) 2026** i weithredu cam nesaf ein diwygiadau llwyddiannus i ailgylchu yn y gweithle yng Nghymru.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd i'r Rheoliadau, byddant yn dod a gofyniad i weithleoedd gyflwyno cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) ar wahân i'w casglu a'u hailgylchu o 6 Ebrill 2026. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i weithleoedd wahanu sWEEE heb eu gwerthu yn unig. Mae'r camau hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a ddatganwyd gan y Senedd, ac mae'n dangos cynnydd sylweddol tuag at economi gryfach, wyrddach fel yr ymrwymwyd iddo yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Rydym wedi ymgynghori yn ddiweddar ar newidiadau i'r *'Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân i'w Hailgylchu – Cod Ymarfer i Gymru'* i adlewyrchu'r gofyniad sWEEE newydd. Yn fy natganiad blaenorol ar 18 Rhagfyr, bu imi gadarnhau fod yr holl ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu cefnogi gan fwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn. Er mwyn cynorthwyo Aelodau'r Senedd i ystyried y Rheoliadau hyn, rwyf wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Cod Ymarfer sydd i'w weld yma.

Bydd y Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 fel bod yn rhaid cyflwyno sWEEE (nid yn unig 'heb eu gwerthu' fel sydd ar hyn o bryd) ar wahân i'w casglu. Effeithiau'r Rheoliadau hyn yw bod yn rhaid i fangre annomestig gyflwyno sWEEE i'w casglu ar wahân; bod y rhai sy'n casglu'r deunyddiau ailgylchadwy penodedig o fangre annomestig ar wahân i ddeunyddiau ailgylchadwy eraill a gwastraff gweddilliol, a bod y deunyddiau ailgylchadwy hynny a gasglwyd ar wahân yn cael eu cadw ar wahân ac nad ydynt yn gymysg. Bydd y gofynion hyn yn cynyddu ymhellach ansawdd a swm deunyddiau ailgylchadwy a gesglir o weithleoedd, a thrwy hynny greu'r cyfle i adnoddau gwerthfawr ac yn aml gyfyngedig gael eu hadfer o'r llif gwastraff hwn a fyddai fel arall yn cael eu colli.

Disgwylir i'r Rheoliadau hyn leihau $CO_2e$ 7,437 tunnell, lleihau $NO_2$ 6 tunnell a chynyddu ailgylchu 37,757 tunnell dros 10 mlynedd. Bydd y polisi hefyd yn dod â manteision sylweddol ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, disgwyl creu tua 90 o swyddi newydd yn y sector rheoli gwastraff a gostyngiad disgwyliedig mewn tanau gwastraff a achosir gan fatris lithiwm-ion a geir mewn llawer o eitemau trydanol bach a allai arwain at arbedion ychwanegol eithaf sylweddol.

Y gofyniad sWEEE yw cam diweddaraf y diwygiadau ailgylchu yn y gweithle, sydd wedi'u modelu i ddarparu budd net cronnol o £194.6M o Werth Presennol Net dros 10 mlynedd yn sgil y pecyn cyfunol o fesurau.

Mae ymgyrch gyfathrebu genedlaethol ar y gweill i helpu gweithleoedd i baratoi ar gyfer y newidiadau a bod yn barod i gydymffurfio erbyn 6 Ebrill 2026.

Gellir gweld y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yma. Gellir gweld yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn yma. Mae'r Asesiadau Effaith Integredig ar gael yma.

Mae canllawiau ac adnoddau eraill ar gyfer gweithleoedd a chasglwyr gwastraff ar gael yma: www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle a Y Busnes o Ailgylchu Canllawiau ar gyfer holl weithleoedd

Bydd fersiwn derfynol y Cod Ymarfer diwygiedig, sy'n nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu diwygiedig, yn cael ei chyhoeddi a'i gosod gerbron y Senedd ar ôl gwneud Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) (Diwygio) 2026.

Edrychaf ymlaen at drafod ag Aelodau'r Senedd yn ystod y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau.

# SL(6)741 – Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn pennu'r terfynau ffioedd uchaf y caniateir eu codi ar 'berson cymhwysol' sy'n ymgymryd â 'chwrs cymhwysol' addysg uwch at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf Addysg ac Ymchwil Trydyddol (Cymru) 2022 ('Deddf 2022'). Maent hefyd yn darparu, os yw cwrs cymhwysol yn cael ei ddarparu gan drydydd parti ar ran darparwr addysg drydyddol cofrestredig, y caiff y ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â'r cwrs hwnnw eu trin, at ddibenion adran 32(7) ac adran 46 o Ddeddf 2022, fel pe baent yn daladwy i'r darparwr cofrestredig.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o’r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo’r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae'r ffioedd uchaf a nodir yn y Rheoliadau drafft hyn yn gymwys i 'gwrs cymhwysol' sy’n cael ei wneud gan 'berson cymhwysol'.  Mae Datganiad Ysgrifenedig a wnaed gan Vikki Howells AS, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, ar 27 Ionawr 2026 yn cadarnhau y bydd offeryn statudol ychwanegol yn cael ei wneud y mis hwn yn egluro’r ddau derm at y dibenion hyn. Mae paragraff 3.3 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau drafft hyn yn cadarnhau bod y telerau wedi'u pennu gan Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026, nad ydynt wedi'u gosod eto. Heb yr ail set honno o Reoliadau, ni allwn ystyried cwmpas y telerau hyn ac felly sut y bydd y ffioedd uchaf yn gymwys yn ymarferol. Gofynnwn a allai'r ddwy set o Reoliadau fod wedi’u cyhoeddi gyda'i gilydd i alluogi gwaith craffu mwy effeithiol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Chwefror 2026**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gosod Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026** |
| **DYDDIAD** | **27 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Vikki Howells AS, Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch** |

Heddiw, rwyf wedi gosod drafft o Reoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026 ("y Rheoliadau Terfynau Ffioedd"). Bydd y rheoliadau hyn pennu'r terfynau ffioedd uchaf y caniateir eu codi ar 'berson cymhwysol' sy'n ymgymryd â 'chwrs cymhwysol' addysg uwch at ddibenion Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ('Deddf 2022') Rwy'n bwriadu nodi personau cymhwysol a chyrsiau cymhwysol at y diben hwn mewn offeryn statudol pellach i'w wneud fis nesaf.

Y prif fwriad y tu ôl i'r offerynnau statudol hyn yw sicrhau bod capiau ffioedd dysgu yn parhau i fod yn berthnasol o flwyddyn academaidd 2027/28 ymlaen, ar ôl gweithredu Deddf 2022 yn llawn a diddymu'r drefn reoleiddio bresennol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2025 ysgrifennais at yr aelodau yn cadarnhau fy mwriad i gynyddu'r capiau ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, ac yn ddiweddar rwyf wedi gwneud Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 i ddarparu ar gyfer y cynnydd hwn. Yn y datganiad hwnnw, cadarnheais hefyd y bydd y capiau ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2027/28 yn cael eu hystyried yn nhymor nesaf y Senedd.

Mae'r Rheoliadau Terfynau Ffioedd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2027/28 i alluogi Medr i sefydlu'r gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru (fel sy'n ofynnol gan Ran 2 o Ddeddf 2022) ac i gynnwys categori terfyn ffioedd ar gyfer darparwyr addysg uwch.

# SL(6)688 - Y Cod Trefniadaeth Ysgolion

## Cefndir a Diben

Dyroddir y Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") o dan adrannau 38 a 39 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Dyma'r trydydd argraffiad o'r Cod a bydd yn dod i rym ar 9 Chwefror 2026 ac yn disodli'r ail argraffiad o'r Cod a gyhoeddwyd yn 2018.

Mae adran 38 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod ar drefniadaeth ysgolion. Caiff y Cod osod gofynion a chaiff hefyd gynnwys canllawiau sy'n amlinellu nodau, amcanion a materion eraill.

Rhaid i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac unrhyw berson arall sy'n cynnig ad-drefnu ysgolion weithredu yn unol â'r gofynion yn y cod a rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau yn y Cod wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Yn nhestun Cymraeg y Cod, mae amrywiad rhwng y defnydd o "dyroddi" neu "cyhoeddi" i fynegi ystyr "issue" lle'r ymddengys fod y cyd-destun yr un peth. Ar ddalen flaen y ddogfen, mynegir "Date of issue" fel "Dyddiad cyhoeddi" ond yn y paragraff cyntaf o dan y pennawd "Crynodeb o'r newidiadau yn y trydydd argraffiad o'r Cod" ar dudalen 7 mynegir "issue" gan ddefnyddio "dyroddi" a "cyhoeddi" yn yr un cyd-destun. Yn nhroednodiadau 1 a 2 ar dudalen 7, mynegir "issue" drwy ddefnyddio ffurfiau gramadegol ar "dyroddi" a "cyhoeddi" wrth gyfeirio at "issue of notices" gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ddiweddarach ym mharagraff 8.2, mae'r testun Cymraeg hefyd yn amrywio rhwng "rhoi" a "dyroddi" wrth gyfeirio at "issue" o ran cyfarwyddyd. Yn

ogystal, ym mharagraff 5.17, mynegir "issue" mewn perthynas â phenderfyniad drwy ddefnyddio ffurf ar "cyhoeddi" ond ym mharagraff 5.31 fe'i mynegir trwy ddefnyddio ffurf ar "cyflwyno" (a ddefnyddir yn fwy cyffredin ar gyfer "serve") yn yr un cyd-destun. Mae'r broblem hon yn digwydd trwy gydol testun Cymraeg y Cod.

2. Ar dudalen 9, ym mharagraff 1, yn y testun Saesneg, ar ôl y cyfeiriad at adran 2, mae'n nodi'r pennawd ar gyfer yr adran honno "(changes which require proposals)". Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau mewn cromfachau ychydig yn wahanol i bennawd adran 2 gan ei fod yn nodi "newidiadau sy'n gofyn am gynigion" yn hytrach na "newidiadau y mae angen cynigion ar eu cyfer".

3. Ym mharagraff 1.42, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "the reason for <u>proposing</u> discontinuance of the school" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "y rheswm dros gau'r ysgol" ac mae'r gair "cynnig" wedi'i hepgor.

4. Ym mharagraff 1.45, yn yr wythfed pwynt bwled, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "promote access to <u>the availability</u> of Welsh-medium courses" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg" ac mae'r gair "argaeledd" wedi'i hepgor. Yn ogystal, mae gwahaniaeth bach arall yn y pwynt bwled hwnnw lle mae'n nodi "the sustainability <u>or</u> enhancement of Welsh-medium provision" yn y testun Saesneg, ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "gynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg <u>a'i</u> gwella".

5. Ym mharagraff 2.7, yn y testun Cymraeg, mae'r dewis o derm ar gyfer "premises" yn amrywio rhwng y geiriau "safle" a "premises" yn yr un cyd-destun. Ar ddechrau'r paragraff hwnnw, yn y pwynt bwled cyntaf, mynegir "premises of a school" a "premises of the school" fel "mangre ysgol" a "mangre'r ysgol". Ond yn ddiweddarach ym mharagraff 2.7, mynegir "school premises" a "school's premises" ill dau fel "safle ysgol". Felly, mae'r testun Cymraeg yn anghyson wrth gyfeirio at "premises" yn yr un cyd-destun. Yn ogystal, ni fydd y darllenydd yn gallu gwahaniaethu rhwng "site" a "premises" yn y testun Cymraeg oherwydd defnyddir "safle" hefyd i fynegi "site" mewn mannau eraill yn y Cod. "Mangre" yw'r gair safonol a argymhellir ar gyfer "premises" yng Ngeirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

6. Yn yr ail baragraff sydd â'r rhif 3.16, ar ddiwedd yr ail bwynt bwled, mae'n nodi "the terms 'merger' or 'amalgamation' might be used" yn y testun Saesneg. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, defnyddiwyd un gair yn unig, sef "uno" sy'n gallu mynegi'r ddau air "merger" ac "amalgamation". Fodd bynnag, a ddylai hefyd nodi "cyfuno" yn y testun Cymraeg am "amalgamation", os oes unrhyw wahaniaeth posibl mewn ystyr neu bwyslais yn y dewis o eiriau yn y testun Saesneg?

7. Ym mharagraff 3.22, mae anghysondeb yn y dewis o air i fynegi "register" yn y testun Cymraeg. Yn y trydydd pwynt bwled, mynegir "registered" trwy ddefnyddio'r gair mwy llythrennol "cofrestru" ond yn y pwynt bwled olaf mynegir "to register" trwy ddefnyddio "nodi".

8. Ym mharagraff 3.23, yn y geiriau agoriadol cyn y pwyntiau bwled, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "the following information <u>for the new school</u> **must** also be included" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "**rhaid** cynnwys yr wybodaeth ganlynol" ac mae'r geiriau "ar gyfer yr ysgol newydd" wedi'u hepgor.

9. Ym mharagraff 3.36, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "children and young people's participation standards for Wales" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "safonau <u>**cenedlaethol**</u> ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru".

10. Ym mharagraff 4.3, mae rhai gwahaniaethau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn yr ail bwynt bwled, mae'n nodi "any <u>existing</u> school" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "unrhyw ysgol", ac mae'r gair "bresennol" wedi'i hepgor. Yn ogystal, yn y testun Saesneg, yn y pedwerydd pwynt bwled, mae'n nodi "and <u>staff</u> members" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "a staff <u>yr ysgol</u>".

11. Ym mharagraff 5.1 yn y pwynt bwled cyntaf, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "see paragraphs <u>**5.24 to 5.27**</u>" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "gweler paragraffau <u>**5.25 i 5.28**</u>".

12. Mae paragraff 5.17 yn ymwneud â chynigion sydd angen cymeradwyaeth gan awdurdod lleol. Os yw cynnig yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth awdurdod lleol, mae paragraff 5.17 yn darparu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi ei benderfyniad o fewn 16 o wythnosau sy'n dechrau â diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Mae hyn yn adlewyrchu adran 51(8) o Ddeddf 2013. Fodd bynnag, mae paragraff 5.17 yn mynd ymlaen i ddarparu nad yw methiant i gydymffurfio â'r terfyn amser hwnnw yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw benderfyniad a wneir ac ymddengys fod hyn yn torri'n uniongyrchol ar draws adran 51(8) o Ddeddf 2013, ac ar draws ewyllys y Senedd a fynegir ynddi. Er ein bod yn nodi y caiff y Cod osod gofynion o dan adran 38(3) o'r Ddeddf, nid ydym o'r farn y gall hynny ymestyn i newid effaith y ddeddfwriaeth sylfaenol. Os bydd awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad ar ôl i'r cyfnod a nodir yn adran 51(8) ddod i ben, pa bŵer rydych chi'n ystyried y bydd yn ei arfer wrth wneud y penderfyniad hwnnw?

13. Ym mharagraff 5.28, yn y frawddeg olaf, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "whether or not <u>contested</u> school

organisation proposals" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "cynigion trefniadaeth ysgolion ai peidio", ac mae'r gair "dadleuol" wedi'i hepgor.

14. Ym mharagraff 6.9, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "by the substitution of a later date" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "drwy bennu dyddiad diweddariach".

15. Ym mharagraff 7.7, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "The possible closure of such schools" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "i gau ysgolion o'r fath", ac mae'r gair "posibilrwydd" wedi'i hepgor. Yn ogystal, gellid dadlau mai "dyroddi" yn hytrach na "cyhoeddi" yw'r gair priodol i fynegi ystyr "issuing" mewn perthynas â hysbysiad statudol am gau yn y testun Cymraeg.

16. Ym mharagraff 9.7, mae cyfeiriad at "adran 63A(1) o Ddeddf 2023". A ddylai'r cyfeiriad hwn fod at Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013?

17. Yn Atodiad B, yn yr Enghreifftiau o hysbysiadau statudol, yn y testun Cymraeg, mynegir "insert" yn gyffredinol drwy ddefnyddio "nodwch". Fodd bynnag, yn yr hysbysiad cyntaf defnyddir "mewnosodwch" ar un achlysur ac yn yr ail hysbysiad mae "rhowch" wedi cael ei ddefnyddio ar rai achlysuron ar gyfer "insert". A ddylid mabwysiadu dull cyson o ran dewis term ar gyfer "insert" drwy gydol yr hysbysiadau yn y testun Cymraeg?

18. Yn Atodiad B, yn yr Enghraifft o hysbysiad statudol i sefydlu ysgol gymunedol neu wirfoddol newydd, yn y paragraff sy'n dechrau "Yn achos cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd,...", mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "if the proposals are to be implemented by both" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "os bwriedir i'r ddau barti weithredu'r cynigion". Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn yr un paragraff mae'n nodi "y graddau y bydd y naill gorff a'r llall yn eu gweithredu" yn nhestun y ddwy iaith. Felly, yn y testun Cymraeg, dylid nodi "y ddau gorff" yn hytrach na "y ddau barti" i fod yn gyson os ystyrir bod angen darparu gair ychwanegol i gwblhau ystyr y frawddeg. Fel arall, dylid nodi "gan y ddau" fel y gwnaed yn gynharach yn nhestun Cymraeg paragraff 4.7 y Cod.

19. Yn Atodiad B, yn yr Enghraifft o hysbysiad statudol i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol feithrin, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y paragraff cyntaf, nodir y teitl yn gywir "the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013". Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'r teitl wedi'i nodi'n anghywir oherwydd bod "(Cymru)" ar goll o enw'r Ddeddf honno.

20. Yn Atodiad C, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y pwynt bwled olaf ond un o dan y pennawd "Welsh language impact

assessment" mae'n nodi "and any specific language enhancement" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "unrhyw ddarpariaeth gwella iaith", ac mae'r gair "benodol" wedi'i hepgor.

21. Yn Atodiad D, yn y pumed paragraff, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Ar ddechrau'r paragraff hwnnw, yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Where a school with a designated Church in Wales or Roman Catholic religious character…" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "Pan fo ysgol â chymeriad crefyddol fel un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig", ac mae'r gair "dynodedig" wedi'i hepgor. Caiff ei nodi'n gywir yn ddiweddarach ym mrawddeg olaf y paragraff hwnnw yn y testun Cymraeg lle mae'r gair "dynodedig" wedi'i gynnwys ar gyfer yr ymadrodd "â chymeriad crefyddol dynodedig".

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl bwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Cod Trefniadaeth Ysgolion***

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y materion a godwyd gan y Pwyllgor. Er bod y mwyafrif o'r rhain yn bwyntiau golygyddol nad ydynt yn newid gweithrediad nac effaith y Cod, mae rhai materion sydd angen eu cywiro. Am y rheswm hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu'r Cod drafft yn ôl er mwyn gosod Cod drafft wedi'i gywiro ymhellach cyn gynted â phosibl yn ystod tymor y Senedd hon.

Byddwn yn gwneud diwygiadau i fynd i'r afael â'r holl bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, ac eithrio'r materion canlynol:

**Pwynt adrodd 4:** Bydd geiriad y testun Saesneg yn cael ei ddiwygio i ddileu "availability of" er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r testun Cymraeg. Nid ydym yn credu bod angen diwygio'r pwynt bwled hwn ymhellach oherwydd, er nad yw'r geiriad yn union yr un fath, mae'r testun Cymraeg yn glir ac ni fyddai'n cael ei gamddeall.

**Pwynt adrodd 6:** Mae'r pwynt bwled yn dweud y gellid defnyddio'r termau "merger" neu "amalgamation" i gyfeirio at sefyllfa pan fo dwy neu ragor o ysgolion sydd eisoes yn bodoli yn dod yn un ysgol sy’n gweithredu ar fwy nag un safle. Caiff y gair "uno" ei ddefnyddio'n gyffredin yn y Gymraeg i ddisgrifio'r sefyllfa hon; fodd bynnag, byddwn yn ystyried a ddylid nodi "cyfuno" hefyd.

**Pwynt adrodd 7:** Nid ydym yn cytuno â'r pwynt gan ein bod o’r farn bod y dewis o air ym mhob pwynt bwled yn adlewyrchu cysyniad y pwynt bwled. Nid ydym o’r farn bod angen ei ddiwygio.

**Pwynt adrodd 8:** Nid ydym yn cytuno â'r pwynt gan ein bod o'r farn bod y testun Cymraeg yn glir ac yn osgoi ailadrodd diangen. Nid ydym o’r farn bod angen ei ddiwygio.

**Pwynt adrodd 10:** Mewn perthynas â'r pwynt cyntaf yn y sylw hwn, rydym o'r farn bod y testun Cymraeg yn glir ac nid ydym yn credu bod angen ei ddiwygio. Mewn perthynas â'r ail bwynt yn y sylw hwn, rydym yn cytuno a byddwn yn diwygio'r mân anghysondeb.

**Pwynt adrodd 14:** Nid ydym yn cytuno â'r pwynt gan nad yw'n gyfieithiad llythrennol oherwydd nad oes unrhyw un gair am "substitution" yn y Gymraeg.

**Pwynt adrodd 15:** Nid ydym yn cytuno â'r pwynt gan nad yw'n gyfieithiad llythrennol, ond caiff yr elfen "possible" ei chynnwys yn y testun Cymraeg drwy'r gair "cynnig". Mae'r testun Cymraeg yn cyfieithu fel "the proposal to close such schools".

# SL(6)715 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (‘**Deddf 2016**’) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 (**“y prif Reoliadau”**) yn gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys ceisiadau i gofrestru a cheisiadau i amrywio cofrestriad o dan Ddeddf 2016.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026 ("**Rheoliadau 2026**") yn diwygio'r prif Reoliadau i roi effaith i newidiadau a gyflwynir gan adran 6A(1) o Ddeddf 2016, sy'n cyfyngu ar ddarparu gwasanaethau plant penodol i awdurdodau lleol ac endidau nid-er-elw. Mae'r gwasanaethau hyn, y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "**gwasanaethau plant o dan gyfyngiad**", yn cynnwys gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu.

Effaith arfaethedig y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2026 yw sicrhau bod ceisiadau i gofrestru, neu i amrywio cofrestriad mewn cysylltiad â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i ddangos cydymffurfedd â'r gofyniad statudol bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan endidau nid-er-elw.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn Annilysu’r Senedd

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 3 yn datgan bod y prif Reoliadau wedi’u diwygio yn unol â rheoliadau 4 i **10** o Reoliadau 2026. Mae'r testun Saesneg yn cynnwys dim ond **9** rheoliad. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys 10 rheoliad.

O ganlyniad, mae anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg.

Fodd bynnag, yn fwy sylfaenol, effaith hepgor rheoliad 10 yn y testun Saesneg yw nad yw paragraff newydd 7A o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau wedi’i fewnosod. O ganlyniad, mae darpariaethau eraill sy'n dibynnu ar baragraff newydd 7A o Atodlen 1 (megis rheoliadau newydd 3B ac 11A o'r prif Reoliadau) yn ddiffygiol.

Yn ei dro, mae'r Nodyn Esboniadol yn anghywir gan ei fod yn nodi bod rheoliadau 8 a 9 yn mewnosod rheoliadau newydd 14 a 15 yn y prif Reoliadau, a bod rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1. Mewn gwirionedd, fel y'i drafftiwyd, rheoliad 8 yn unig sy’n mewnosod rheoliadau 14 a 15, mae rheoliad 9 yn diwygio Atodlen 1 ac mae rheoliad 10 wedi’i hepgor yn anghywir.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad newydd 11A yn y prif Reoliadau. Mae’n datgan:

> **11A.** Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag adran 6C a pharagraff 4 o Atodlen 1A gynnwys yr wybodaeth a restrir ym mharagraffau 7 a 7A o Atodlen 1.

Mae hyn yn ddryslyd i'r darllenydd gan fod y ddwy Atodlen hyn mewn deddfwriaeth ar wahân. Mae Atodlen 1A yn cyfeirio at Atodlen 1A i Ddeddf 2016, ac mae Atodlen 1 yn cyfeirio at Atodlen 1 i'r prif Reoliadau. Byddai'n llawer cliriach pe bai geiriau fel 'i'r Ddeddf' neu 'i’r Rheoliadau hyn' yn cael eu hychwanegu. Nodwn y byddai hyn yn cyd-fynd â'r dull yn rheoliad 4(a)(iv).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 8 yn mewnosod rheoliad newydd 14 yn y prif Reoliadau. Mae hyn yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu mewn cais i ganslo ei gofrestriad. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad o ddau bwynt mewn perthynas â rheoliad newydd 14.

O dan reoliad newydd 14(a), rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys y dyddiad arfaethedig y dylai'r canslo gymryd effaith.

Y ddarpariaeth sylweddol sy'n llywodraethu canslo cofrestriad fel darparwr gwasanaeth yw adran 14 o Ddeddf 2016. Mae'n darparu i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o ganiatáu cais i ganslo i'r darparwr gwasanaeth, ac yn darparu bod canslo o'r fath yn cymryd effaith ar y diwrnod sy'n 3 mis ar ôl cael yr hysbysiad, neu ddyddiad cynharach a bennir yn yr hysbysiad.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd rheoliad newydd 14(a) o'r prif Reoliadau yn gweithio ar y cyd ag adran 14(3) o Ddeddf 2016. Yn benodol, o dan ba amgylchiadau y bydd adran 14(3)(a) o Ddeddf 2016 yn gymwys yn ymarferol?

Yn ail, mae rheoliad newydd 14(d) yn nodi bod rhaid i gais canslo gynnwys "*manylion unrhyw hysbysiad a roddir ynghylch y bwriad i beidio â darparu’r gwasanaeth*". Ein dealltwriaeth mai bwriad hyn yw cwmpasu unrhyw hysbysiad a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth ynghylch

ei fwriad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau. Os yw hyn yn gywir, rydym o'r farn y byddai'n gliriach nodi "[...] *manylion unrhyw hysbysiad a roddir gan y darparwr gwasanaeth ynghylch ei fwriad i beidio â darparu'r gwasanaeth* [...]"

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliad newydd 3B yn y prif Reoliadau. Mae hyn yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru hepgor gofynion gwybodaeth penodol pan fo ymgeisydd yn cymryd drosodd y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyfyngedig i blant o dan amgylchiadau penodol. Un o'r meini prawf ar gyfer yr hepgoriad yw bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol "*gan roi sylw i'r wybodaeth a gedwir gan Weinidogion Cymru am y darparwr presennol*" (tanlinelliad wedi'i ychwanegu).

O dan amgylchiadau o'r fath, pa asesiad a wneir o addasrwydd a chymhwysedd yr ymgeisydd i gymryd drosodd y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau gan ddarparwr gwasanaeth?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r holl bwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2026***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y gwall hwn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno system Lawmaker ar gyfer llunio is-ddeddfwriaeth a throsglwyddwyd yr OS hwn i system Lawmaker o'r feddalwedd flaenorol (y templed OSau). Yn anffodus, yn ystod y broses hon, hepgorwyd testun rheoliad 10 o'r fersiwn Saesneg. Er mwyn cywiro'r gwall hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud set newydd o Reoliadau cyn bo hir, sef Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2026 a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Rheoliadau hyn .

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Gan y nydd Llywodraeth Cymru yn gwneud set newydd o Reoliadau caiff y diwygiadau i fynd i'r afael â'r pwynt adrodd hwn eu hymgorffori wrth ddrafftio'r Rheoliadau hynny.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Bydd adran 14(3)(a) yn gweithredu yn ymarferol i atal y rheoleiddiwr rhag dyroddi hysbysiad sy'n pennu dyddiad canslo sydd mwy na 3 mis ar ôl dyroddi'r hysbysiad. Ar ôl cael cais i ganslo cofrestriad bydd y rheoleiddiwr yn gallu edrych ar yr wybodaeth sy'n dod gyda'r cais yn ofalus i ddeall beth fydd canlyniadau dod â'r cofrestriad i ben i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Efallai y bydd cwestiynau y gall y rheoleiddiwr eu gofyn i ysgogi darparwr neu bersonau eraill e.e. cyrff comisiynu a fydd yn helpu i liniaru unrhyw ganlyniadau nas dymunir. Yn ogystal, mae rheoliad 14(a) yn caniatáu i'r darparwr nodi yn y cais y dyddiad a ffefrir ganddo i ganslo ei gofrestriad. Gall y rheoleiddiwr wedyn ystyried yr wybodaeth hon wrth benderfynu pennu'r dyddiad o dan adran 14(3)(b) o'r Ddeddf.

Yn ein barn ni mae'r cyd-destun yn ei gwneud yn ddigon clir bod yr hysbysiad o dan sylw yn hysbysiad a roddir gan y darparwr gwasanaeth. Mae'r ddarpariaeth mewn rhestr o wybodaeth i'w rhoi gan y darparwr gwasanaeth ac mae'n canolbwyntio ar wybodaeth a fydd ym meddiant y darparwr gwasanaeth. Mae'r defnydd o'r fannod sy'n cyfeirio at "y bwriad" yn briodol oherwydd mae'r un rheoliad eisoes yn cyfeirio at y cais i ganslo cofrestriad a wneir i'r rheoleiddiwr ac mae'r cais yn ymwneud yn gryf iawn â'r bwriad. Rydym yn cytuno y byddai'r newid a gynigir gan y Pwyllgor yn gwneud hyn hyd yn oed yn gliriach ond yn ein barn ni nid yw'r drafftio mor aneglur fel ei fod yn arwain at amwysedd neu anawsterau wrth ei ddehongli neu ei gymhwyso. Gan fod set newydd o Reoliadau i'w gwneud byddwn yn gwneud y newid a gynigir gan y Pwyllgor wrth ddrafftio'r Rheoliadau hynny.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:** Mae'r ceisiadau y mae rheoliad newydd 3B yn gymwys iddynt yn geisiadau i gofrestru i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad ac felly bydd yr holl ofynion arferol yn gymwys, er enghraifft y prawf addasrwydd. Efallai y bydd sefyllfaoedd pan fo cais i gofrestru yn cael ei wneud gan gorff nid-er-elw

a chyfarwyddwyr a swyddogion y corff hwnnw yw'r un unigolion sydd â'r rolau hynny yn y sefydliad er-elw sy'n darparu'r gwasanaeth. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd y fangre, y polisïau na'r gweithdrefnau gweithredu wedi newid ychwaith.

Mae'r ddarpariaeth hepgor yn caniatáu i'r rheoleiddiwr ddefnyddio ei ddisgresiwn i beidio â gwneud holl wybodaeth arferol cais yn ofynnol pan fo ganddo eisoes wybodaeth berthnasol a dibynadwy ynghylch y darparwr presennol (er enghraifft, planiau llawr ei fangre) – boed hynny o gais blaenorol neu weithgaredd arolygu – a phan fo'n amlwg y bydd yr ymgeisydd yn ymarferol yn parhau i ddarparu'r un gwasanaeth o dan strwythur nid-er-elw newydd. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd yr wybodaeth sydd gan y rheoleiddiwr eisoes yn ddigonol i ddarparu sicrwydd ynghylch addasrwydd a chymhwysedd yr ymgeisydd yn y meysydd hyn i'w alluogi i hepgor gofynion penodol yn briodol.

# Eitem 5.2

## SL(6)727 - [Rheoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026]

### Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026 (y "**Rheoliadau**") yn cau tri chynllun amaethyddiaeth gwaddol yr UE yng Nghymru, sef y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau, Cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chynlluniau Cymorth ar gyfer Storio Preifat.

Y Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau

Mae'r Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau yn gynllun gwaddol gan yr UE a sefydlwyd ym 1996, sy'n cynnig cymorth ariannol i Sefydliadau Cynhyrchwyr i wella cynhyrchiant ffrwythau a llysiau. Mae'r Memorandwm Esboniadol (y "**Memorandwm**") yn nodi na chafwyd unrhyw geisiadau i'r cynllun oddi wrth Sefydliadau Cynhyrchwyr yng Nghymru ers iddo gael ei sefydlu ym 1996.

Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth ar gyfer Storio Preifat

Y cynlluniau hyn oedd dwy o'r prif ffyrdd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin o ymyrryd yn y farchnad er mwyn cefnogi prisiau'r farchnad. O dan y ddau gynllun, mae cynhyrchion amaethyddol yn cael eu tynnu o'r farchnad pan fydd prisiau'n mynd yn is na throthwyon penodol.

Mae'r Memorandwm yn egluro y gellir agor cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus mewn dwy sefyllfa ar hyn o bryd. Mae cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus gorfodol yn cael eu hagor yn awtomatig os yw pris y farchnad yn disgyn yn is na'r trothwy, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) brynu hyd at swm penodol o'r cynhyrchion. Mae Ymyrraeth Gyhoeddus pan fydd amodau eithriadol yn y farchnad yn gynlluniau a agorir fel y gwêl Gweinidogion yn dda pan fydd argyfwng yn cael effaith ar farchnad sector penodol.

Mae cynlluniau Cymorth ar gyfer Storio Preifat yn fesurau cymorth i'r farchnad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i sefydlogi marchnadoedd amaethyddol yn ystod cyfnodau o warged neu pan fydd prisiau'n anwadal. O dan y cynlluniau hyn, rhoddir cymhellion ariannol i gynhyrchwyr neu broseswyr storio rhai cynhyrchion amaethyddol dros dro.

Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw'r cynlluniau hyn wedi cael eu defnyddio yng Nghymru ers o leiaf y flwyddyn 2000.

### Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y rhaglith, ceir y datganiad: "*Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol at ddibenion adran 14(1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*".

Mae darpariaethau Deddf alluogi sy'n diffinio ymadroddion megis "*yr awdurdod cenedlaethol perthnasol*" fel arfer yn cael eu cynnwys mewn troednodyn cysylltiedig (fel sy'n digwydd hefyd yn nhroednodyn (3)).

Ymddengys nad oes gofyniad i wneud y datganiad hwn yn y rhaglith, ac nid yw'n nodi ychwaith fod amod sy'n ofynnol cyn gwneud y Rheoliadau hyn yn cael ei fodloni (gweler SIP 3.11.28).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae'r datganiad hwn wedi cael ei gynnwys yn rhaglith y Rheoliadau hyn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 7(7), disgrifir y diwygiad fel "ar ôl paragraff ZB", ond ymddengys y dylid ei ddisgrifio fel "ar ôl pwynt ZB". Mae hyn oherwydd bod y rhaniadau presennol â llythyren yn cael eu disgrifio fel 'pwyntiau' yn y croesgyfeiriadau yn Atodiad 2 i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014.

Mae hyn hefyd yn wir am ddiwygiadau a wneir gan reoliadau 9(8) a 10(20) y dylid eu disgrifio fel "ar ôl pwynt A2" yn hytrach nag "ar ôl paragraff A2" mewn perthynas â'r rhaniadau sydd â rhif yn yr Atodiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/1238 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1240.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 7(8) yn honni ei fod yn mewnosod testun yn Atodiad 3 i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014 ar ôl "yr ail baragraff".

Nodwn fod darpariaethau cyfatebol ar wahân a wneir ar gyfer Lloegr a'r Alban ill dwy yn mewnosod y testun perthnasol ar y dechrau ('at the beginning').

Nid yw'n glir a yw'r pwynt mewnosod penodedig yn rheoliad 7(8) yn adlewyrchu bwriad Llywodraeth Cymru.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 10(13), mae'r rhestr o Erthyglau a nodir i'w diwygio yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1240 yn cynnwys Erthygl "51 (hysbysiad o gwblhau contractau)". Fodd bynnag, pennawd Erthygl 50 o'r Rheoliad hwnnw yw'r geiriau mewn cromfachau mewn gwirionedd. Pennawd cywir Erthygl 51 yw "elfennau'r contract".

Felly, nid yw'n glir a ddylid gwneud y diwygiad i Erthygl 50 (hysbysiad o gwblhau contractau) neu i Erthygl 51 (elfennau'r contract) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1240.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 10(21), mewnosodir yr un testun yn union ym mhob un o Atodiadau 6, 7 ac 8 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1240.

Nid yw'r darpariaethau yn Atodiadau 6 a 7 wedi'u rhifo. Fodd bynnag, yn Atodiad 8, mae'r darpariaethau presennol wedi'u rhifo. Felly, mae'n ymddangos y dylid rhifo'r testun newydd a fewnosodir yn Atodiad 8 fel "A1". Mae hyn hefyd yn wir am y testun newydd a fewnosodir gan reoliad 10(22) yn Atodiad 9 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/1240.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm yn amlinellu'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Rheoliadau hyn. Mae'n datgan:

> *"Rhwng 2 Mehefin a 25 Awst 2025, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad, i geisio barn am ein cynnig i gau'r cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau a'r cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat yng Nghymru.*
>
> *Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar-lein a'i rannu â grwpiau o randdeiliaid allweddol yn y sector amaethyddiaeth a chyda'r cyhoedd i geisio barn am y newidiadau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am y defnydd o'r cynlluniau yng Nghymru ac effaith terfynu'r cynlluniau.*
>
> *Daeth tri ymateb i law, dau ohonynt yn cytuno â'r newidiadau a gynigiwyd. Nid oedd y trydydd yn cynnwys ymatebion oedd yn berthnasol i'r pwnc. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y diffyg defnydd o'r Cynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau yng Nghymru ac y*

*byddai tyfwyr garddwriaethol yn cael eu cefnogi orau mewn ffyrdd eraill. Dywedon nhw fod y cynllun yn rhy gymhleth a dyna pam nad oedd pobl wedi gwneud cais i'r cynllun.*

*Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod beth oedd y cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat ac roeddent yn hapus yn eu gweld nhw'n cau."*

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'n datgan:

*"Drwy ddileu'r cynlluniau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn lleihau'r risg ariannol a gweinyddol i gyllid cyhoeddus o ddatblygu, rhedeg a chynnal cynlluniau nad ydynt bellach yn addas i'w diben i'r sector amaethyddol yng Nghymru.*

*Bydd y newidiadau hyn yn negyddu'r angen am set newydd o brosesau nad yw Llywodraeth Cymru yn eu gweinyddu ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn negyddu'r angen i ddiweddaru'r systemau oedd yn cael eu defnyddio i redeg y cynlluniau. Pe bai'r cynlluniau'n cael eu cadw, byddai angen caffael storfeydd, hyfforddi swyddogion technegol newydd ac ailddechrau contractau technegol gyda labordai. Byddai gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol i wneud hynny.*

*Mae'r adborth drwyddo draw yn awgrymu nad yw'r cynlluniau hyn o ddefnydd i'r sector amaethyddol yng Nghymru ac ni fydd eu cau yn cael unrhyw effaith ar y sector yng Nghymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau technegol yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb Llywodraeth ar Reoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026**

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor; fodd bynnag, rydym yn fodlon bod cynnwys y datganiad yn y rhaglith, er nad yw'n ofyniad, yn rhoi eglurder i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor. Er ein bod o'r farn bod ystyr bwriadedig y ddarpariaeth yn dal i fod yn glir i'r darllenydd, er mwyn eglurder llwyr, byddwn yn sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y nodir yn y tabl isod i sicrhau bod cyfeiriadau perthnasol yn cael eu gwneud at "pwyntiau" yn hytrach na "paragraffau". Rydym o'r farn bod diwygiadau o'r fath yn fân ac yn ansylweddol.

**Pwynt Craffu Technegol 3:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor. Er ein bod o'r farn bod ystyr bwriadedig y ddarpariaeth yn dal i fod yn glir i'r darllenydd, er mwyn eglurder llwyr, byddwn yn sicrhau bod y rheoliad hwn yn cael ei ddiwygio cyn ei wneud fel y nodir yn y tabl isod i ddiweddaru'r geiriad o "ar ôl yr ail baragraff" i "ar y dechrau" i fynd i'r afael â hyn. Rydym o'r farn bod y diwygiad hwn yn fân ac yn ansylweddol.

**Pwynt Craffu Technegol 4:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor. Bwriad y ddarpariaeth yw diwygio Erthygl 51 (h.y. yr Erthygl a enwir yn y drafft cyfredol), felly mae'r gwall mewn cysylltiad â'r pennawd yn unig a byddwn yn sicrhau bod y rheoliad yn cael ei ddiwygio cyn ei wneud fel y nodir yn y tabl isod i fynd i'r afael â hyn. Rydym o'r farn bod y diwygiad hwn yn fân ac yn ansylweddol.

**Pwynt Craffu Technegol 5:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor; fodd bynnag, rydym yn fodlon bod bwriad geiriad cyfredol y rheoliadau hyn yn glir i'r darllenydd ac ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddiwygiadau mewn cysylltiad â hyn.

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU | CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU |
|---|---|
| **Rheoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026** | **The Closure of European Union Legacy Agriculture Schemes (Wales) Regulations 2026** |
| *Bydd rheoliadau 7(7), 9(8) a 10(20) yn cael eu diweddaru fel bod y cyfeiriadau at "paragraff" yn cael eu diwygio i "pwynt".* | *Bydd rheoliadau 7(7), 9(8) a 10(20) yn cael eu diweddaru fel bod y cyfeiriadau at "paragraph" yn cael eu diwygio i "point".* |
| *Bydd rheoliad 7(8) yn cael ei ddiwygio fel bod "ar ôl yr ail baragraff" yn cael ei ddiweddaru i "ar y dechrau".* | *Bydd rheoliad 7(8) yn cael ei ddiwygio fel bod "after the second paragraph" yn cael ei ddiweddaru i "at the beginning".* |
| *Bydd rheoliad 10(13) yn cael ei ddiwygio i newid pennawd Erthygl 51 o "(hysbysiad o gwblhau contractau)" i "(elfennau'r contract)".* | *Bydd rheoliad 10(13) yn cael ei ddiwygio i newid pennawd Erthygl 51 o "(notification of conclusion of contracts)" i "(elements of the contract)".* |

Eitem 5.3

# SL(6)729 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae adrannau 63F i 63M o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf"), a fewnosodwyd gan adran 13 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, yn gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau artiffisial i osgoi atebolrwydd ardrethi annomestig mewn perthynas â hereditamentau yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio'r mathau o drefniadau osgoi, mewn perthynas â hereditamentau ar y rhestrau ardrethu annomestig lleol, sy'n artiffisial at ddibenion adrannau 63F i 63I a 63K i 63M o'r Ddeddf (oni bai bod awdurdod bilio yn penderfynu fel arall). Maent hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chosbau a diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth.

Disgrifir y mathau o drefniadau sy'n artiffisial yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn, ac yn yr Atodlen iddynt. Y rhain yw: trefniadau pan na fo hereditament wedi ei feddiannu ar sail fasnachol, pan fo'r talwr ardrethi wedi ei ddirwyn i ben yn wirfoddol, pan fo'r perchennog neu'r meddiannydd yn dangos nodweddion ac ymddygiadau penodol, neu pan fo nodweddion penodol i feddiannaeth yr hereditament. Fodd bynnag, mae rheoliad 3(2) yn galluogi awdurdod bilio i benderfynu nad yw trefniant o fath a bennir yn yr Atodlen yn artiffisial ar ôl rhoi sylw i'r holl amgylchiadau. Caiff amgylchiadau o'r fath gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt) y rheini a restrir yn rheoliad 3(3).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gosb a osodir pan fo person wedi methu â thalu swm sy'n ddyledus i awdurdod bilio am ei fod wedi gwneud trefniant artiffisial a'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiadau sy'n gosod cosbau o'r fath ("hysbysiadau cosb").

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth o ran sut y caiff awdurdod bilio beri bod hysbysiadau a roddir o dan adran 63K(1) o'r Ddeddf a hysbysiadau cosb yn cael eu cyflwyno.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 ("Rheoliadau 1989").

Mae rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023").

## Y weithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae un o'r pwerau galluogi, adran 63M(1), yn nodi:

> *(1) The Welsh Ministers may by regulations make provision for the imposition of a financial penalty where—*
>
> *(a) a person has been given a notice under section 63K(1) or (2) and it has not been withdrawn,*
>
> *(b) the time limit for requesting a review under section 63K(4) has expired and, if a review has been requested, the time limit for appealing under section 63L has expired, and*
>
> *(c) the person has failed to pay an amount due to a billing authority or the Welsh Ministers in consequence of having made an artificial non-domestic rating avoidance arrangement.*

Mae rheoliad 4(2) yn nodi amodau y mae rhaid eu bodloni, lle bo'n berthnasol, cyn gosod cosb. Yn ogystal â'r amod a restrir yn adran 63M(1)(b) o'r Ddeddf, mae rheoliad 4(2) hefyd yn cynnwys yr amodau a ganlyn:

> *(b) os yw'r hysbysiad adran 63K yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 63L(2) o'r Ddeddf, mae wedi ei gadarnhau gan dribiwnlys prisio a sefydlwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 11 i'r Ddeddf ac mae'r terfyn amser ar gyfer apelio'r hysbysiad i'r Uwch Dribiwnlys wedi dod i ben;*
>
> *(c) os yw'r hysbysiad adran 63K yn ddarostyngedig i apêl o dan reoliad 56(1)(aa) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023(14), mae wedi ei gadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys.*

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi'r rhesymau dros gynnwys yr amodau hyn nad ydynt wedi'u nodi yn adran 63M(1) o'r Ddeddf.

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 6(3) yn mewnosod yr is-baragraff a ganlyn i reoliad 5 o Reoliadau 1989, gan nodi pryd y dylid cyflwyno hysbysiad galw:

*"(c) if a billing authority in Wales has given notice under section 63K(1) of the Act to a person who is to be treated as liable as regards the hereditament concerned under section 43 or 45 of the Act, the first day after—*

*(i) the time limit for requesting a review under section 63K(4) has expired, or*

*(ii) if a notice under section 63K(1) of the Act has been confirmed following a review, the time limit for appealing the notice under section 63L has expired."*

Mae Rheoliad 56(1)(aa) o Reoliadau 2023 (a fewnosodir gan reoliad 7(5) o'r Rheoliadau hyn) yn caniatáu cyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniad tribiwnlys ar apêl o dan adran 63L o'r Ddeddf.

Nid yw'n glir pryd y mae rhaid cyflwyno hysbysiad galw os gwneir apêl o'r fath. A ellid cyflwyno hysbysiad galw cyn i'r terfyn amser i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys ddod i ben, neu cyn bod canlyniad yr apêl honno'n hysbys?

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 7(3) yn diwygio rheoliad 32 o Reoliadau 2023. Mae rheoliad 32 o Reoliadau 2023 hefyd yn cael ei ddiwygio gan reoliad 11(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026. Mae'r diwygiadau testunol a wneir gan reoliad 7(3) o'r Rheoliadau hyn i reoliad 32 o Reoliadau 2023 fel y'u diwygiwyd gan reoliad 11(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026.

Daw rheoliad 11 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026 i rym ar 1 Ebrill 2026, yr un diwrnod â'r Rheoliadau hyn.

Er mwyn i'r diwygiadau a wneir gan reoliad 7(3) ddiwygio rheoliad 32 o Reoliadau 2023 yn gywir, bydd angen i reoliad 11 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026 ddod i rym cyn y Rheoliadau hyn.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae rheoliad 11 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026, er gwaethaf y ffaith ei fod yn dod i rym ar yr un diwrnod â'r Rheoliadau hyn, yn cael effaith cyn y Rheoliadau hyn, er mwyn caniatáu i reoliad 7(3) o'r Rheoliadau hyn ddiwygio rheoliad 32 o Reoliadau 2023 fel y'u drafftiwyd.

**4. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

*Mae trefniant yn drefniant artiffisial at ddibenion adran 63H(1)(a) o'r Ddeddf pan fo'n gwneud person ("P") **y meddiannydd ar hereditament** ac nid **yw'r hereditament** wedi*

*ei feddiannu ar sail fasnachol am fod un neu ragor o'r canlynol yn gymwys* (pwyslais wedi'i ychwanegu)

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw "y meddiannydd ar hereditament" (heb y fannod) a "yw'r hereditament" (gyda'r fannod) yn cyfeirio at yr un hereditament yn y paragraff hwn?

Ymhellach, mae paragraff 2(2) yn nodi "...yn dalwr ardrethi **hereditament** (naill ai'r hereditament y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) neu hereditament arall)", gan ei gwneud yn glir y gallai "hereditament" fod yn hereditament arall. Fodd bynnag, mae paragraff 2(3)(a) yn nodi "...yn dalwr ardrethi **yr hereditament** (naill ai'r hereditament y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) neu hereditament arall)". A ddylai hyn hefyd gyfeirio at "**hereditament**" heb y fannod?

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y testun Saesneg, mae paragraff 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau yn nodi fel a ganlyn:

> *An arrangement is an artificial arrangement for the purposes of section 63H(1)(a) of the Act* ***where it makes a person ("P") the occupier of a hereditament*** *and the hereditament is not occupied on a commercial basis because one or more of the following applies*— (pwyslais wedi'i ychwanegu)

Mae testun Cymraeg cyfatebol y geiriau mewn print trwm uchod yn nodi: "pan fo'n gwneud person ("P") y meddiannydd ar hereditament". Gofynnir a yw'r testun Cymraeg yn gywir yn ramadegol. Gofynnir yr un peth mewn perthynas â'r geiriau "y talwr ardrethi" ym mharagraff 3(1)(b), (c) a (d) o'r Atodlen.

Ymhellach, mae testun Saesneg paragraff 2(1) o'r Atodlen yn cynnwys y geiriau: "where it makes P the ratepayer of the hereditament", ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "pan fo'n gwneud P **yn dalwr ardrethi** yr hereditament". Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r dull gwahanol yn yr Atodlen mewn perthynas â defnyddio "y talwr ardrethi" ac "yn dalwr ardrethi" yn fwriadol, ac os felly, a allech egluro'r rhesymau dros y geiriad gwahanol.

**6. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn yr Atodlen i'r Rheoliadau, mae paragraff 2(3)(b) yn nodi fel a ganlyn:

> *o fewn 3 blynedd i'r diwrnod yr ymrwymwyd i'r trefniant rhwng L a P, yr oedd P wedi ei ddirwyn i ben yn wirfoddol,* ***neu yr oedd P wrthi'n*** *cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol, o dan Benodau 2 i 5 o Ran 4 o Ddeddf Ansolfedd 1986.* (pwyslais wedi'i ychwanegu)

Yn y testun Saesneg, mae'r geiriau mewn print trwm yn nodi "or **is** in the process of being, wound up voluntarily". Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa fersiwn iaith o'r Rheoliadau sy'n gywir.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

7. **Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Er y gellir adolygu hysbysiad a roddir o dan adran 63K o'r Ddeddf ac y gellir apelio yn ei erbyn wedi hynny, nid yw'r Rheoliadau'n darparu gweithdrefn adolygu na apelio mewn perthynas â chosb a osodir o dan reoliad 4, a gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes angen gweithdrefn o'r fath yn ei barn hi.

8. **Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn y canlynol yn adran 2 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Mae’r troednodyn y cyfeirir ato yn rheoliad 4(2)(c) o’r Rheoliadau yn cynnwys cyfeiriad at offeryn diwygio (sef Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026). Ar ddyddiad gosod y Rheoliadau, nid yw’r offeryn diwygio hwnnw wedi ei gymeradwyo, ei wneud, na’i gofrestru, felly nid yw wedi bod yn bosibl mewnosod ei rif O.S. yn y troednodyn. Bydd y rhif hwn yn cael ei fewnosod yn y troednodyn cyn gwneud y Rheoliadau.*

9. **Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i’r Gronfa honno neu i unrhyw ran o’r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i’w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o’r fath.**

Er nad yw'r Rheoliadau eu hunain yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i Gronfa Gyfunol Cymru, mae adran 63M(4) o'r Ddeddf yn nodi “any sum received by way of penalty under this section is to be paid into the Welsh Consolidated Fund”. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod y gosb ariannol honno.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 7.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026")**

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae Rheoliadau 2026 yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 o dan baragraffau 1 ac 11(1A) o Atodlen 11 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), gan alluogi person i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Prisio Cymru (fel tribiwnlys prisio a sefydlwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 11) mewn perthynas â hysbysiadau adran 63K. O ystyried y llwybr posibl ar gyfer apelio i'r Uwch Dribiwnlys, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod rheoliad 4(2)(b) ac (c) (a wneir o dan adran 143A(3) o Ddeddf 1988) yn angenrheidiol ac yn hwylus er mwyn sicrhau nad yw awdurdod bilio yn gosod cosb ariannol ar berson hyd nes bod y broses adolygu ac apelio – pa un ai i Dribiwnlys Prisio Cymru neu'r Uwch Dribiwnlys – wedi ei disbyddu'n llawn.

Pwynt Craffu Technegol 2:

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y gellid cyflwyno hysbysiad galw am dalu cyn i'r terfyn amser ar gyfer apelio i'r Uwch Dribiwnlys ddod i ben, neu cyn i ganlyniad yr apêl honno ddod yn hysbys. Dyma'r bwriad polisi. Mae'r amodau yn rheoliad 4(2) o Reoliadau 2026 yn golygu, pan na fo person yn talu'r swm sy'n ddyledus mewn hysbysiad galw am dalu a ddyroddwyd o dan reoliad 5(1)(c) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989, na all yr awdurdod bilio osod cosb ariannol o dan reoliad 4 o Reoliadau 2026 oherwydd na fyddai'r amodau yn rheoliad 4(2)(b) nac (c) wedi eu bodloni.

Pwynt Craffu Technegol 3:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno a bydd yn gwneud cywiriad cyn gwneud y Rheoliadau i sicrhau y bydd y diwygiadau a wneir gan reoliad 7(3) yn dod i rym ar ôl i reoliad 11(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026 ddod i rym.

Pwynt Craffu Technegol 4:

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod yr hereditament yn y termau "y meddiannydd ar hereditament" a "yw'r hereditament" ym mharagraff 1 o'r Atodlen i Reoliadau 2026 yn cyfeirio at yr un hereditament a bydd yn gwneud y cywiriad a gynigir cyn gwneud y Rheoliadau.

Pwynt Craffu Technegol 5:

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y testun Cymraeg yn gramadegol gywir ac yn cyfeirio'r Pwyllgor at *Gramadeg y Gymraeg* gan Peter Wynn Thomas, adrannau 6.20 a 6.23 yn ymdrin â berfau dibeniadol anghyflawn sy'n egluro'r gystrawen hon. Nid yw'r testun ym mharagraff 2(1) yn defnyddio dull gwahanol, ond yn hytrach mae goddrych

y frawddeg yn wahanol (sef “talwr ardrethi yr hereditament”, yn hytrach nag “y talwr ardrethi”) sy’n arwain at gystrawen sy'n wahanol i’r hyn a geir ym mharagraff 3(1)(b), (c) a (d) ond eto'n gywir, am fod y fannod mewn safle gwahanol yn y ddau achos.

Pwynt Craffu Technegol 6:

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau mai’r testun Saesneg yw’r fersiwn gywir a bydd yn sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei gywiro cyn gwneud y Rheoliadau.

Pwynt Craffu Technegol 7:

Nid yw adrannau 63L a 63ML o Ddeddf 1988 yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau sy’n creu hawl i apelio yn erbyn cosb ariannol a osodir o dan reoliad 4, dim ond hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad adran 63K. Mae hyn yn adlewyrchu’r bwriad polisi ar gyfer gweithrediad y fframwaith gwrthweithio osgoi trethi, pan y’i cyflwynwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

*Cywiriadau drafftio technegol i’w gwneud cyn i’r Rheoliadau gael eu gwneud*

| **CYWIRIADAU I’R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I’R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026** | **Non-Domestic Rating (Artificial Avoidance Arrangements) (Local Lists) (Wales) Regulations 2026** |
| Yn y dyddiad dod i rym yn yr adran italig, cywirir “*1 Ebrill 2026*” i ddarllen “*yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*”. | Yn y dyddiad dod i rym yn yr adran italig, cywirir “*1 April 2026*” i ddarllen “*in accordance with regulation 1(2) and (3)*”. |
| Yn rheoliad 1, rhoddir y canlynol yn lle paragraff (2) i ddarllen: -<br>*“(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.*<br>*(3) Daw rheoliad 7(3) i rym yn union ar ôl i reoliad 11(4) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026* ddod i rym.*” | Yn rheoliad 1, rhoddir y canlynol yn lle paragraff (2) i ddarllen:-<br>*“(2) Subject to paragraph (3), these Regulations will come into force on 1 April 2026.*<br>*(3) Regulation 7(3) comes into force immediately after regulation 11(4) of the Non-Domestic Rating (Provision of Information About Changes of* |

| | |
|---|---|
| *mewnosodir troednodyn i ddarllen "O.S.C. 2026/15". | *Circumstances) (Wales) Regulations 2026* comes into force*."<br><br>*mewnosodir troednodyn i ddarllen "W.S.I. 2026/15". |
| Ym mharagraff 1 o'r Atodlen, cywirir y testun drwy fewnosod y gair "*yr*" o fewn y testun "*... pan fo'n gwneud person ("P") y meddiannydd ar **yr** hereditament ac nid yw'r hereditament wedi ei feddiannu...*". | Ym mharagraff 1 o'r Atodlen, cywirir y gair "*a*" yn y testun "*("P") the occupier **of a** hereditament*" i ddarllen "*the*". |
| Ym mharagraff 2(2) o'r Atodlen, cywirir y testun "*....pan ddaeth X yn dalwr ardrethi hereditament...*" i ddarllen "... *pan ddaeth X y talwr ardrethi ar gyfer hereditament....*". | |
| Ym mharagraff 2(3)(a) o'r Atodlen, cywirir y testun "*... pan ddaeth Y yn dalwr ardrethi yr hereditament....*" i ddarllen "*... pan ddaeth Y y talwr ardrethi ar gyfer hereditament....*". | Ym mharagraff 2(3)(a) o'r Atodlen, cywirir y gair "the" yn y testun "... *ratepayer **of the** hereditament...",* i ddarllen "*a*" . |
| Ym mharagraff 2(3)(b) o'r Atodlen, cywirir y testun "... *neu yr oedd P wrthi'n cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol*" i ddarllen "*neu y mae P wrthi'n cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol,...".* | |

# Eitem 5.4

# SL(6)730 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) (Diwygio etc.) 2026

## Cefndir a Diben

Roedd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016) yn sefydlu contractau meddiannaeth sy'n gymwys rhwng tenant a'i landlord yng Nghymru. Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn rhagnodi datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract sy'n gymwys mewn perthynas â chontractau meddiannaeth.

Mae Deddf Hawliau Rhentwyr 2025 ("Deddf 2025") yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â gwahaniaethu yn y farchnad rentu yng Nghymru. Yn benodol, mae'n mewnosod adran 54A (yr hawl i blant fyw mewn annedd neu ymweld â hi) ac adran 54B (yr hawl i hawlio budd-daliadau) yn Neddf 2016.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2022 i fewnosod darpariaethau yn y datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontract mewn perthynas â'r hawliau a ddarperir yn adran 54A ac adran 54B o Ddeddf 2016. Maent hefyd yn darparu nad yw adran 54A o Ddeddf 2016 (yr hawl i blant fyw mewn annedd neu ymweld â hi)) yn ddarpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i gontract safonol â chymorth.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi adran 141(1) a 141(2) o Ddeddf 2025 ac adrannau 22(1)(b), 29(1) a 256(1) o Ddeddf 2016 fel pwerau galluogi.

Mae'n ymddangos i ni y caiff adran 22(1)(b) o Ddeddf 2016 ei defnyddio mewn perthynas â rheoliad 4 a chaiff adran 29(1) o Ddeddf 2016 ei defnyddio mewn perthynas â rheoliad 3.

Ynghyd â hyn, mae adran 256(1) o'r Ddeddf honno yn cadarnhau bod unrhyw bŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn y Ddeddf yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth

ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Mae adran 141(1) a 141(2) o Ddeddf 2025 hefyd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i Ran 2 o'r Ddeddf honno, gan gynnwys y pŵer i ddiwygio unrhyw ddeddfiad.

Er y nodwn fod Pennod 4 o Ran 1 o Ddeddf 2025 yn diwygio Deddf 2016 mewn perthynas â gwahaniaethu yn y farchnad rentu, a bod y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth yn hynny o beth, nid yw'n glir sut mae adran 141(1) neu 141(2) yn cael eu defnyddio yn ychwanegol at bwerau Deddf 2016 a nodir, a gofynnir i Weinidogion Cymru roi eglurhad yn hyn o beth.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***SL(6)730 –Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) (Diwygio etc.) 2026***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i’r Pwyllgor am godi’r pwynt hwn ac am ofyn am eglurhad.

Dibynnir ar adran 22(1)(b) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) ar gyfer rheoliad 4. Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu bod darpariaethau mewn deddfwriaeth yn peidio â bod yn delerau sylfaenol. Mae rheoliad 4 yn darparu nad yw adran newydd 54A o Ddeddf 2016, fel y’i mewnosodir gan Ddeddf Hawliau Rhentwyr 2025 (“Deddf 2025”), yn ddarpariaeth sylfaenol sy’n gymwys i gontractau safonol â chymorth.

Dibynnir ar adran 29(1) o Ddeddf 2016 ar gyfer rheoliad 3. Mae’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol o gontractau. Mae rheoliad 3 yn mewnosod telerau sy’n cyfateb i adrannau newydd 54A a 54B o Ddeddf 2016 (a fewnosodir gan Ddeddf 2025) yn y Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol ar gyfer mathau penodol o gontract meddiannaeth.

Dibynnir ar adran 256(1) o Ddeddf 2016 ar gyfer rheoliadau 3 a 4 i wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â gwahanol fathau o gontract meddiannaeth. Mae adran 256(1)(c) yn galluogi rheoliadau o dan Ddeddf 2016 i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o gontract meddiannaeth. Mae rheoliad 3 yn mewnosod y telerau sylfaenol newydd mewn rhai mathau o gontractau meddiannaeth, ond nid pob math ohonynt. Mae rheoliad 4 yn darparu nad yw adran newydd 54A yn ddarpariaeth sylfaenol ar gyfer contractau safonol â chymorth.

Dibynnir ar adran 141(1) a (2) o Ddeddf 2025 ar gyfer rheoliadau 3 a 4. Gwneir y rheoliadau o ganlyniad i ddarpariaeth yn Rhan 1 o Ddeddf 2025. Gwneir rheoliad 3 am fod adrannau newydd 54A a 54B yn cael eu mewnosod yn Neddf 2016 (gan Ddeddf 2025) i adlewyrchu bod y darpariaethau hynny’n ffurfio telerau sylfaenol mewn mathau penodol o gontract meddiannaeth. Gwneir rheoliad 4 am fod adran newydd 54A yn cael ei mewnosod yn Neddf 2016 i sicrhau nad yw’n deler sylfaenol mewn contractau safonol â chymorth.

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/6600/26

Mike Hedges AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

3 Chwefror 2026

Annwyl Mike

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ar 11 Chwefror. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar ddiwygio etholiadau, ynghyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU. Bydd trafodaeth bellach yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phleidleiswyr a diogelwch.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn fformat hybrid, ac yn cael ei gadeirio gan Samantha Dixon AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Y mynychwyr eraill fydd Graeme Dey ASA, y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth yr Alban a Matthew Patrick AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Gogledd Iwerddon.

Byddaf yn ysgrifennu eto ar ôl y cyfarfod gyda diweddariad.

Yn gywir,



**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HID-PO-067-26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

3 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am yr unfed cyfarfod ar ddeg o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a fydd yn cael ei gynnal ar 5 Chwefror 2026. Byddaf yn ymuno arlein.

Disgwylir i'r drafodaeth ganolbwyntio ar Ddiogelwch Etholiadol, Adroddiad Modiwl 2 Ymchwiliad Covid-19 y DU, a materion byw gan gynnwys deddfwriaeth y DU a Chonfensiwn Sewel.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Llywodraeth Leol a Thai.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod yn unol â'r trefniadau arferol.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Grŵp Rhyngweinidogol y Pedair Gwlad ar Waith a Phensiynau** |
| **DYDDIAD** | **05 Chwefror 2026** |
| **GAN** | **Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Jack Sargeant AS, Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol** |

Ar 19 Ionawr, bu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Jack Sargeant AS, yn cynnal Grŵp Rhyngweinidogol y Pedair Gwlad ar Waith a Phensiynau. Daeth y cyfarfod â Gweinidogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghyd i drafod blaenoriaethau a rennir o ran cymorth cyflogaeth i bobl anabl a phobl ifanc.

Wrth gadeirio'r cyfarfod, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ddull trawslywodraethol Cymru  o ddarparu cymorth cyflogadwyedd i bobl anabl, gan dynnu sylw at y Cynllun Hawliau Pobl Anabl i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n anelu at gryfhau hawliau a chyfleoedd pobl anabl ar draws pob maes bywyd, gan gynnwys cyflogaeth. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r model cymdeithasol o anabledd yw'r egwyddor ganolog sy'n sail i holl gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl anabl.

Tynnodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol sylw at bwysigrwydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflogwyr gan gynnwys Busnes Cymru a'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, sy'n tynnu ar brofiad bywyd i helpu cyflogwyr i gael gwared ar rwystrau gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Croesawodd y Gweinidog y gwaith ar y cyd ar Arloeswyr Anweithgarwch Economaidd Cymru, yn enwedig effeithiolrwydd eu dull amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar y person, ond nododd bryderon am y cyfnod cyllido dwy flynedd. Gofynnodd i Lywodraeth y DU rannu'r dysgu cynnar ac unrhyw gynlluniau ar gyfer cyflwyno'r Arloeswyr yn ehangach, cyn gynted ag y bydd ar gael.

Pwysleisiodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol bwysigrwydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, monitro canlyniadau cyflogaeth a mynd i'r afael â bylchau cyflog, a chroesawodd yr ymrwymiad parhaus i gydweithio ar draws y pedair gwlad. O ran cyflogaeth ieuenctid, tynnodd y Gweinidog sylw at lwyddiant y Warant i Bobl Ifanc yng Nghymru, sydd wedi cefnogi 64,000 o bobl ifanc i gael gwaith ers 2021. Gan ganolbwyntio

ar y goblygiadau ar gyfer rhaglenni peilot yng Nghymru, pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â'r llywodraethau datganoledig ar ddatblygu Gwarant Ieuenctid y DU. Bydd yr ymgysylltiad hwn hefyd yn sicrhau cysondeb ac aliniad o ran y ddarpariaeth ar draws llywodraethau datganoledig ac yn gwneud y mwyaf o'r effaith.

Nodwyd y rhwystrau ymarferol i gyflogaeth sy'n wynebu pobl ifanc a phobl anabl, gan gynnwys mynediad at addysg, trafnidiaeth a hyfforddiant. Cydnabuwyd bod Cymru yn enghraifft o arfer da o ran lliniaru rhwystrau, er enghraifft, drwy gynnal a chynyddu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a chyflwyno prisiau bws fforddiadwy i bobl ifanc.

Daeth y cyfarfod i ben gydag ymrwymiad  i barhau i rannu gwybodaeth a gwella cydweithredu ar draws y pedair cenedl i atal dyblygu ymdrechion.

Disgwylir i hysbysiad gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y dyfodol agos.

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gael ar dudalen Cysylltiadau Rhynglywodraethol bwrpasol gwefan Llywodraeth y DU.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/our ref: MA/HIDCC/3171/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

2 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Cemegau (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2026**

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor am y bwriad i gytuno i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Cemegau (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2026 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i Gymru (maent hefyd yn berthnasol i Loegr a'r Alban).

Mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth a gymathwyd ar gemegau, a byddant yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU (y dyddiad gosod arfaethedig yw 24 Chwefror) ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Byddant yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau yn adrannau 14 ac 20 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae adran 14(9) o'r Ddeddf honno yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau drwy arfer y pwerau yn adran 14 ar ôl 23 Mehefin 2026. Mae crynodeb o'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau wedi'i nodi isod er gwybodaeth.

Pwynt olaf i roi cyd-destun i helpu'r Pwyllgor yw bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyflawni llawer o swyddogaethau mewn perthynas â chemegau ar ran Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol.

***Rheoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr (BPR Prydain)***

Mae deddfwriaeth Prydain ar fioladdwyr yn seiliedig ar Reoliad yr UE Rhif 528/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 22 Mai 2012 sy'n ymwneud â defnyddio cynhyrchion bioleiddiadol a'r broses o'u rhoi ar y farchnad ('BPR yr UE'), ac fe'i gelwir yn gyffredin yn Rheoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr ('BPR Prydain'). Mae BPR Prydain yn rheoleiddio'r defnydd o gynhyrchion bioleiddiadol a'r broses o'u rhoi ar y farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o gynhyrchion sy'n rheoli organebau niweidiol, fel

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

pryfladdwyr, gwenwyn llygod a diheintyddion. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu sylweddau actif a ddefnyddir mewn cynhyrchion bioleiddiadol, sef y cemegau sy'n cael yr effaith reoli ar yr organeb niweidiol. Mae'r Rheoliadau:

- yn sicrhau bod grŵp o hyd at 173 o gyfuniadau o fathau o gynhyrchion/ sylweddau actif cymeradwy yn aros ar farchnad Prydain tan 31 Gorffennaf 2031, ar yr amod bod cais i adnewyddu cymeradwyaeth yn dod i law, lle byddai eu cymeradwyaeth fel arall wedi dod i ben heb unrhyw fai ar yr ymgeiswyr oherwydd eu bod wedi cyrraedd eu dyddiadau dod i ben (sy'n digwydd ar ddyddiadau gwahanol rhwng 23 Mehefin 2026 a 30 Gorffennaf 2031, gan gynnwys y ddau ddyddiad hynny). Bydd yr estyniad hwn i'r dyddiadau dod i ben yn galluogi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ddatblygu a chynnal diwygiadau ehangach i'r drefn bioladdwyr yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r nod o newid sut mae sylweddau actif cymeradwy yn cael eu rheoli er mwyn osgoi'r angen am estyniadau tebyg eraill yn y dyfodol.
- yn diweddaru darpariaethau sy'n caniatáu i gynhyrchion bioleiddiadol hanfodol aros ar farchnad Prydain lle maent yn angenrheidiol i ddelio â pherygl i iechyd y cyhoedd, iechyd anifeiliaid neu'r amgylchedd na ellir ei gyfyngu drwy ddulliau eraill. Bydd hyn yn caniatáu i'r cynnyrch bioleiddiadol gael ei gadw ar farchnad Prydain naill ai am hyd at 550 o ddiwrnodau (fel ar hyn o bryd) neu hyd nes bydd y cynnyrch bioleiddiadol wedi'i awdurdodi, pan mae'r angen parhaus i'w ddefnyddio yn annhebygol o fod yn un dros dro.
- yn diwygio rheolau diogelu data yn BPR Prydain i gywiro gwall drafftio sy'n deillio o BPR yr UE, fel bod yr holl sylweddau actif cymeradwy yn cael y cyfnodau diogelu data perthnasol fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Mae manteision cymdeithasol cynnal y sylweddau actif hyn ar y farchnad yn cynnwys: atal clefydau rhag lledaenu (gan gynnwys drwy deithiau awyr rhyngwladol); atal difrod i fusnesau a chartrefi ac osgoi tarfu ar fusnesau a cholli stoc.

***<u>Rheoliad Dosbarthu, Labelu a Phecynnu Prydain Fawr (CLP Prydain)</u>***

Mae CLP Prydain yn seiliedig ar Reoliad (CE) Rhif 1272/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Rhagfyr 2008 ar ddosbarthu, labelu a phecynnu sylweddau a chymysgeddau ('CLP yr UE'), ac fe'i gelwir yn gyffredin yn Rheoliad Dosbarthu, Labelu a Phecynnu Prydain Fawr ('CLP Prydain'). Nod CLP Prydain yw sicrhau bod peryglon cemegol yn cael eu nodi a'u cyfleu'n effeithiol a bod cemegau yn cael eu pecynnu'n ddiogel er mwyn diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae hefyd yn darparu'r dull deddfwriaethol y mae'r DU yn ei ddilyn i barhau i fabwysiadu a rhoi System Wedi'i Chysoni'n Fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar waith ar gyfer dosbarthu a labelu cemegau - system wirfoddol y cytunwyd arni'n rhyngwladol ar gyfer adnabod a chyfleu peryglon.

Cynlluniwyd CLP yr UE gan ystyried anghenion yr UE ac adnoddau cyfun holl aelod-wladwriaethau'r UE. O ganlyniad, mae CLP Prydain yn cynnwys rhai gweithdrefnau a gofynion sydd, o brofiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o weithredu'r drefn, yn cymryd llawer o amser ac yn gostus i gydymffurfio â nhw. Mae'r Rheoliadau:

- yn symleiddio ac yn cyfuno'r gweithdrefnau presennol a ddefnyddir i adlewyrchu newidiadau gwyddonol a thechnegol i'r 'Rhestr Dosbarthu a Labelu Gorfodol' ('y Rhestr MCL') sy'n gyfreithiol gyfrwymol a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac maen nhw'n sefydlu llwybr gwerthuso cyflymach i bennu peryglon sylweddau cemegol.
- yn cael gwared â'r rhwymedigaeth ar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ystyried cynigion dosbarthu a labelu'r UE yn awtomatig er mwyn galluogi mwy o hyblygrwydd i flaenoriaethu gwerthusiadau dosbarthu peryglon sydd fwyaf perthnasol i farchnad Prydain.

- yn diwygio'r mecanwaith a ddefnyddir i hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Alban am newidiadau arfaethedig i Restr MCL Prydain er mwyn cael gwared ag achosion o ddyblygu.
- yn cael gwared â nodiadau technegol sy'n ymwneud â chofnodion ar y Rhestr MCL o CLP Prydain i hwyluso symud y nodiadau hynny i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (lle mae'r Rhestr MCL i'w gweld). Ar y cyd â'r diwygiadau i'r gweithdrefnau MCL a ddisgrifir uchod, bydd y newidiadau hyn yn golygu bod modd darparu diweddariadau MCL yn fwy effeithlon yn unol ag amserlenni cyflymach gan ddefnyddio gofynion a phrosesau sy'n fwy priodol ar gyfer marchnad Prydain. Bydd hyn yn lleihau ansicrwydd i gyflenwyr cemegau y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt ddefnyddio'r elfennau labelu a dosbarthu gorfodol hynny.
- yn cael gwared â gofynion hysbysu beichus o ran cemegau a osodir ar gyflenwyr er mwyn lleihau cost cydymffurfio a hwyluso twf busnes. Maent hefyd yn cael gwared â'r gofynion cysylltiedig i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sefydlu a rheoli cronfa ddata gyhoeddus o'r hysbysiadau sy'n dod i law. Ystyrir bod y gofynion yn ddiangen gan nad yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn defnyddio'r hysbysiadau i orfodi neu ddarparu CLP Prydain ar unwaith. Yn hytrach, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyflawni'r nodau o oruchwylio'r cemegau a roddir ar farchnad Prydain ac annog cydweithrediad y diwydiant i gytuno ar hunan-ddosbarthiadau drwy ddulliau eraill sydd eisoes wedi'u nodi yn CLP Prydain.  Er enghraifft, o dan Erthygl 49 o CLP Prydain, mae'r Awdurdod yn gallu gofyn i gyflenwyr am wybodaeth maen nhw'n ei defnyddio i ddosbarthu a labelu'r cemegau maen nhw'n eu rhoi ar farchnad Prydain, ac mae rhan 1.1.0 o Atodiad I i CLP Prydain yn annog cyflenwyr i gydweithio i fodloni gofynion.

Darperir mwy o oruchwyliaeth ar y sylweddau cemegol a gyflenwir ym Mhrydain hefyd dan reoliadau eraill sy'n rheoli'r cyflenwad o gemegau. Mae hyn yn cynnwys Rheoliad a gymathwyd (CE) Rhif 1907/2006 ar Ddeddf Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (UK REACH) a deddfwriaeth sy'n ymwneud â chemegau sy'n benodol i'r sector fel BPR Prydain. Felly, mae effaith y gofynion hysbysu presennol ar faich i fusnesau yn drech na'u manteision.

***Rheoliad Cydsyniad ar sail Penderfyniad Cytbwys Ymlaen Llaw Prydain Fawr ('PIC Prydain')***

Mae PIC Prydain yn seiliedig ar Reoliad (UE) Rhif 649/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 4 Gorffennaf 2012 sy'n ymwneud ag allforio a mewnforio cemegau peryglus ('PIC yr UE'), a elwir yn gyffredin yn Rheoliad Cydsyniad ar sail Penderfyniad Gwybodus Ymlaen Llaw Prydain Fawr ('PIC Prydain'). Mae PIC Prydain yn mynnu bod allforwyr cemegau peryglus penodol o Brydain sydd wedi'u nodi ar restr PIC Prydain yn hysbysu'r wlad sy'n mewnforio ac, ar gyfer rhai cemegau, mae angen cydsyniad y wlad sy'n mewnforio cyn gellir bwrw ymlaen i allforio.

Mae hefyd yn gweithredu rhwymedigaethau'r DU fel parti i Gonfensiwn rhyngwladol Rotterdam ar y weithdrefn cydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys ymlaen llaw ar gyfer rhai cemegau peryglus a phlaleiddiaid mewn masnach ryngwladol. Gweinyddir PIC Prydain gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel yr Awdurdod Cenedlaethol Dynodedig. Mae'r Rheoliadau:

- yn cael gwared ag amodau ychwanegol gormodol a oedd yn berthnasol i gemegau penodol yn unig, fel bod yr un amodau'n berthnasol i bob cemegyn sy'n gofyn am gydsyniad penodol/ar sail penderfyniad cytbwys ymlaen llaw i fewnforio. Yn ogystal, maent yn diweddaru'r cyfeiriadau at gyfraith yr UE a gymathwyd fel bod y cyfeiriadau'n gyfredol.

- yn cael gwared â gofyniad diangen a beichus i allforwyr gael cyfeirnod arbennig, mewn rhai achosion, i'w gynnwys yn eu datganiad allforio.
- yn diwygio rhai gweithdrefnau eraill i leihau'r baich gweinyddol ar fusnesau a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r newidiadau'n cyd-fynd â bwriadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 i sicrhau bod rheoleiddwyr a gwaith rheoleiddio yn cefnogi twf.

Mae'r newidiadau y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn rhai i ddarpariaethau PIC Prydain nad ydynt yn gweithredu gofynion y Confensiwn yn uniongyrchol.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ledled Prydain.

Mae cemegau yn ymwneud â chymysgedd o faterion a ddargedwir a materion datganoledig. Yn fras, yng Nghymru, mae diogelu defnyddwyr, labelu cynnyrch a rheoli mewnforio ac allforio yn faterion a ddargedwir tra bo diogelu'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd yn faterion datganoledig. Mae cemegau yn faes lle ymdrinnir â deddfwriaeth, polisi a darpariaeth ar sail Prydain a'r DU. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo sicrwydd rheoleiddiol i fusnesau sy'n gweithredu ar draws nifer o awdurdodaethau, yn lleihau beichiau gweinyddol ac yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod safonau uchel o ran diogelu'r cyhoedd. Mae ein deddfwriaeth gyffredin yn cyd-fynd â rhwymedigaethau rhyngwladol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi di-dor, ac yn atal bylchau rheoleiddiol. Mae'r cysoni hwn yn hwyluso cydweithrediad rhwng cyrff rheoleiddio ac yn sicrhau bod Cymru'n parhau i gyd-fynd â'r arferion gorau o ran diogelwch cemegau a diogelu iechyd y cyhoedd, gan ddiogelu llesiant gweithwyr a'r cyhoedd yn y pen draw, ar yr un pryd â chefnogi cystadleurwydd busnesau Cymru. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau cemegol ar ran Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Gytundebau Asiantaeth.

Ni chafodd y ddeddfwriaeth a oedd yn cael ei diwygio gan y Rheoliadau ei gwneud yn ddwyieithog (yn Gymraeg ac yn Saesneg).

Rwyf wedi ysgrifennu hefyd at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB-PO-27-26

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

John.Griffiths@senedd.wales

21 Ionawr 2026

Annwyl John,

Ar 17 Rhagfyr cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ei adroddiad gwerthuso o'r cynlluniau peilot Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig (AVR) a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Casnewydd a Phowys y llynedd. Defnyddiodd y cynlluniau peilot ddulliau paru data lleol i adnabod etholwyr cymwys ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol. Mewn tair ardal, hysbyswyd etholwyr am y bwriad i'w cofrestru, a'u hychwanegu at y gofrestr, os nad oeddent yn optio allan o fewn cyfnod penodol. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r awdurdodau hynny am gyd-gynhyrchu a chyflwyno'r cynlluniau peilot hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwerthusiad yn amlinellu manteision y dull a dreialwyd, gan gynnwys ychwanegu ychydig dros 14,500 o etholwyr newydd a 1,500 o bobl ifanc 14-15 oed, a fydd yn cael eu cofrestru unwaith y byddant yn troi'n 16 oed, at y gofrestr llywodraeth leol.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:

- amseru'r broses AVR i gyd-fynd â'r canfasiadau blynyddol (gwiriad blynyddol o gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol);
- lleihau hyd y cyfnod optio allan o 60 diwrnod;
- gwella effeithlonrwydd meddalwedd paru data; a
- sicrhau bod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yr adnoddau priodol i reoli'r broses.

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar yr adroddiad gwerthuso ar 17 Rhagfyr ac rwy'n bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddatblygu AVR, a'r bwriad yw gweithio tuag at ei weithredu mewn pryd ar gyfer yr etholiadau lleol yn 2027. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau i ddiddymu'r gofrestr olygedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a gorchymyn i gychwyn adrannau 3 a 4 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), y byddaf yn edrych i'w cyflwyno cyn diwedd tymor y Senedd hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, a gyhoeddodd ym mis Gorffennaf eu huchelgais i symud tuag at gofrestru awtomataidd. Bydd ystyried y rhyngweithio rhwng prosesau cofrestru a gedwir yn ôl a phrosesau cofrestru datganoledig yn rhan allweddol o hynny.

Ar y cyfan, rwy'n falch iawn o sut y cynhaliwyd y cynlluniau peilot a'r mewnwelediad y maent wedi'i ddarparu. Byddaf yn ystyried argymhellion y Comisiwn Etholiadol yn fanwl dros y misoedd nesaf ac yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid etholiadol i ddatblygu'r model mwyaf effeithiol ar gyfer cyflwyno AVR ar draws Cymru. Byddwn yn hapus i drefnu sesiwn friffio i Aelodau ar AVR yn dilyn y gwaith hwn os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Mae copi o'r llythyr hwn hefyd yn cael ei anfon i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Chyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddi Bil Diwygio Cyfraith Cyfunddaliad a Lesddaliad drafft** |
| **DYDDIAD** | **30 Ionawr 2026** |
| **GAN** | **Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai** |

Rwyf yn falch o dynnu sylw'r Aelodau at y Bil Diwygio Cyfraith Cyfunddaliad a Lesddaliad drafft sydd wedi'i gyhoeddi yr wythnos hon ar gyfer gwaith craffu cyn deddfu yn Senedd y DU.

Am ddegawdau, mae lesddaliad wedi canolbwyntio pŵer yn nwylo rhydd-ddeilwyr, tra bod miliynau o drigolion wedi gorfod talu'r pris. Mae'r anghydbwysedd hwn wedi bod yn ddinistriol: cloi pobl mewn contractau annheg, costau yn cynyddu a system sy'n rhwystro cymunedau rhag rheoli eu cartrefi eu hunain.

Mae Bil drafft Llywodraeth y DU yn cynnig newidiadau pwysig sydd i'w croesawu i'r gyfraith sy'n sail i fod yn berchen ar gartrefi yng Nghymru a Lloegr. Mae yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd gan gynnwys:

- Cap ar rhent tir mewn lesoedd presennol o £250 y flwyddyn, yn gostwng i rhent hedyn pupur 40 mlynedd ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth.
- Diwygiadau i gyfunddaliad i'w wneud yn ddewis arall ymarferol i lesddaliad, sef yr hyn y bwriadwyd iddo fod o'r cychwyn cyntaf, yn dilyn y cynigion a nodwyd ym Mhapur Gwyn y llynedd.
- Gwaharddiad ar ddefnyddio lesoedd penodol preswyl hir ar gyfer fflatiau o ddyddiad yn y dyfodol nad yw wedi'i bennu eto. Bwriedir i'r gwaharddiad weithredu mewn ffordd debyg i'r gwaharddiad ar dai lesddaliadol a nodir yn Neddf 2024.
- Diddymu fforffedu lesddaliad ar gyfer lesoedd preswyl hir, lle gellir dod â les i ben os yw telerau'r les yn cael eu torri, a all ddigwydd weithiau ar gyfer dyledion cymharol fach. Mae'r Bil drafft yn nodi proses newydd i fynd i'r afael â thorri telerau trwy 'hawliad gorfodi les'.
- Dileu opsiynau gorfodi anghymesur ar gyfer peidio â thalu mathau penodol o daliadau ystadau rhydd-ddaliadol.

Ochr yn ochr â chyhoeddi'r Bil drafft, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi lansio ymgynghoriad ar weithredu'r gwaharddiad ar fflatiau lesddaliadol yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y maes diwygio pwysig hwn. Fel y dywedais o'r blaen, mae'r gyfraith sy'n sail i lesddaliadau yn gymhleth ac yn heriol i berchnogion tai cyffredin fynd i'r afael â hi'n effeithiol. Bydd gweithio gyda'n gilydd ar gorff cyffredin o gyfraith ddiwygiedig yn lleihau cymhlethdod, yn gwneud y gyfraith mor eglur a chydlynol â phosibl, ac yn sicrhau bod y system ddiwygiedig decach newydd yn berthnasol i bawb.

Rwy'n annog perchnogion tai presennol, darpar berchnogion tai ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb i droi at y cynigion hyn ac ystyried ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r Bil drafft a gwybodaeth esboniadol am ei gynigion i'w gweld yma: Draft Commonhold and Leasehold Reform Bill - GOV.UK (Saesneg yn Unig).

Gellir dod o hyd i'r ymgynghoriad ar wahardd fflatiau lesddaliadol yma: Moving to commonhold: banning leasehold for new flats - GOV.UK (Saesneg yn Unig).

**Julie James AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau

2 Chwefror 2026

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ionawr 2026 ynglŷn â'r penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau).

Fel y gwyddoch, mae'r ddadl ar y Penderfyniad Ariannol wedi'i chynnwys ar y Datganiad Busnes ar gyfer 10 Chwefror. Byddaf yn cyflwyno'r cynnig i'r Senedd gytuno ar y penderfyniad ariannol yfory. Bydd hyn yn caniatáu i drafodion Cyfnod 2 ddigwydd fel y cynlluniwyd ar 12 Chwefror ac – os bydd angen – ar 13 Chwefror.

Ni chafodd cynnig y Penderfyniad Ariannol ei wneud ar 13 Ionawr oherwydd roeddwn am ystyried goblygiadau argymhellion y Pwyllgor i dynnu llawer o'r manylion o Ran 2 o'r Bil, o ran penodi aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn sgil adolygu'r goblygiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad pe bai'r manylion sydd ar hyn o bryd yn Rhan 2 o'r Bil yn cael eu dileu drwy welliant, ni fyddai'r costau sy'n gysylltiedig ag aelodau lleyg yn hysbys oherwydd byddai'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd i ddarparu'r amcangyfrif presennol, yr oedd lefel yr hyder mewn perthynas â hwy eisoes yn isel, yn fwy ansicr eto hyd yn oed. Pe bai'n cael ei ddiwygio fel hyn, ni fyddai'r Bil yn darparu unrhyw baramedrau ar gyfer nifer yr aelodau lleyg, a chan y byddai angen datblygu'r manylyn hwnnw i'w gynnwys mewn Rheolau Sefydlog – a fyddai'n golygu ei fod yn ofynnol cael mwyafrif o ddwy ran o dair ar gyfer cymeradwyo – ni ellir bod yn hyderus ynghylch pryd y byddai'r trefniadau ar gyfer penodi aelodau lleyg yn cael eu rhoi ar waith, na phryd y byddai unrhyw gostau mewn perthynas ag aelodau lleyg yn cael eu hysgwyddo felly. O ganlyniad, hoffwn ystyried y mater hwn ymhellach eto cyn trafodion Cyfnod 2.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar 10 Chwefror ac at drafod y materion hyn ymhellach â'r Aelodau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes a'r holl Aelodau er gwybodaeth.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/our ref: MA_HIDCC_0242_26

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

3 Chwefror 2026

**Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**
**– Diweddariad Memorandwm Esboniadol Cam 2**

Cyn dadl Cam 3 ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ar 10 Chwefror ac yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Esboniadol (EM) a Nodiadau Esboniadol diwygiedig gerbron y Senedd ar ôl cwblhau cyfarfod Pwyllgor CCEI Cam 2 a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr. Mae diwygiadau wedi'u gwneud ledled y ME sy'n adlewyrchu'r ymrwymiadau a roddais mewn ymateb i nifer o argymhellion Cam 1 y Pwyllgor ac i adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Ngham 2.

Nodwch fy ymateb penodol isod i Argymhelliad 6 gan y Pwyllgor Cyllid.

**Argymhelliad 6 gan y Pwyllgor Cyllid** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Dirprwy Brif Weinidog, mewn ymgynghoriad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn amcangyfrif y gost i Swyddfa Archwilio Cymru am ymgysylltu â Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol arfaethedig Cymru, a'i harchwilio, ac yn cynnwys yr wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cam 2*

Yn dilyn ymchwiliad ac ymgysylltu pellach, ni ddisgwylir i gost flynyddol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ymgysylltu â Swyddfa Llywodraethu'r Amgylchedd arfaethedig a'i harchwilio fod yn fwy na £0.5m. Fodd bynnag, bwriedir ymgysylltu pellach â Swyddfa Archwilio Cymru dros y mis nesaf i geisio mireinio'r amcangyfrif hwn yn dilyn diwygiadau Cam 2 sy'n setlo swyddogaethau a chwmpas yr OEGW. Felly, rwy'n ymrwymo i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gydag amcangyfrif mwy cywir o gost Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ymgysylltu ac archwilio'r OEGW cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Bydd yr ME yn cael ei ddiweddaru ymhellach i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3.

Cofion



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID-PO-062-26

Elin Jones MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

2 Chwefror 2026

**Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

Annwyl Elin, Cyn trafodion Cam 4 ar 24 Chwefror, mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi, ar ôl ymgysylltu â Llywodraeth y DU, bod cydsyniad Gweinidog y Goron wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 7.5

Julie James AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adam Price AS/MS
Aelod o'r Senedd dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

3 Chwefror 2026

Annwyl Adam,

**Biliau cydgrynhoi cynllunio: cynnig i ddileu pwerau cynllunio corfforaethau datblygu trefol**

Ysgrifennais ar 27 Ionawr yn nodi cefndir penderfyniad y Llywodraeth y dylai'r Biliau cydgrynhoi cynllunio ddileu pwerau Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau cynllunio i gorfforaeth datblygu trefol (CDU). Pan wnaethom gyfarfod ar 29 Ionawr gyda fy swyddogion, cytunais i ysgrifennu yn rhoi mwy o fanylion am rai o'r anawsterau a fyddai'n codi o geisio cadw a defnyddio'r pwerau presennol.

Yn ystod ein trafodaeth, nododd fy swyddogion a minnau y byddai'r pwerau presennol yn adran 149 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ("Deddf 1980") ond yn galluogi Gweinidogion i drosglwyddo rhai o swyddogaethau awdurdod cynllunio i CDU. Byddai'n rhaid i swyddogaethau cynllunio eraill aros gyda'r awdurdodau lleol yn yr ardal datblygu trefol. Byddai'r rhaniad o swyddogaethau sy'n deillio o hynny yn creu'r risg na allai'r UDC na'r awdurdodau lleol weithredu'n effeithiol fel awdurdodau cynllunio.

Ar hyn o bryd, gellid rhoi swyddogaethau rheoli datblygu i CDU yng Nghymru o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA 1990"), gan gynnwys y pŵer i wneud gorchmynion datblygu lleol a'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gellid rhoi rhai swyddogaethau cysylltiedig hefyd sy'n ymwneud â gorfodi, priffyrdd, adeiladau rhestredig, a chaniatâd a hysbysiadau eraill. Ond mae nifer o swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol na ellid eu trosglwyddo i CDU yng Nghymru, a fyddai'n ei atal rhag gweithredu'n effeithiol neu ar sail gyfartal ag awdurdodau cynllunio lleol eraill. Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn, ond yn gryno, mae'r bylchau fel a ganlyn:

- ni ellid rhoi swyddogaeth i CDU yng Nghymru o baratoi cynllun datblygu lleol;
- gellid rhoi'r swyddogaeth penderfynu ar geisiadau cynllunio, ond ni ellid rhoi'r swyddogaeth o gyhoeddi tystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon, y gellid fod eu hangen i benderfynu a oes angen cais cynllunio;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- gellid rhoi'r swyddogaeth o gytuno ar rwymedigaethau cynllunio, ond nid y swyddogaeth o godi'r ardoll seilwaith cymunedol (CIL), gan adael dim ond rhai o'r pwerau sydd ar gael i fynd i'r afael ag effaith datblygiad ar ei ardal;

- gellid rhoi'r pwerau i gyhoeddi hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stopio, ond nid y pwerau i gyhoeddi hysbysiadau rhybuddio gorfodi a hysbysiadau stopio dros dro. Byddai hyn yn golygu mai dim ond rhai o'r pwerau sydd gan awdurdodau cynllunio lleol i orfodi'r gofynion i gael caniatâd cynllunio a chydymffurfio â thelerau unrhyw ganiatâd a roddir;

- gellid rhoi'r pwerau i wneud gorchmynion cadwraeth coed a chyhoeddi hysbysiadau amnewid coed, ond nid y pwerau i fynd i mewn i dir neu wneud cais am waharddiadau i orfodi gorchmynion cadwraeth coed.

Byddai hefyd rhai bylchau tebyg yn y swyddogaethau y gellid eu trosglwyddo i UDCs o dan y ddeddfwriaeth am adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

Roedd rhai o'r bylchau hyn yn bresennol yn Neddf 1980 pan gyflwynodd y pŵer i drosglwyddo swyddogaethau cynllunio i UDC am y tro cyntaf. Mae eraill yn adlewyrchu'r ffaith bod y dirwedd cynllunio ddeddfwriaethol wedi newid yn sylweddol ers 1980. Mae swyddogaethau newydd wedi'u rhoi i awdurdodau cynllunio, ond nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n creu'r swyddogaethau hynny o reidrwydd wedi eu hychwanegu at y rhestrau o swyddogaethau y gellir eu trosglwyddo i UDCs. Beth bynnag yw'r rhesymau dros adael y bylchau hynny, mae'n amlwg na allwn eu llenwi i gyd mewn ymarfer cydgrynhoi. Yn benodol, ni allai'r Biliau cydgrynhoi newid y gyfraith i alluogi UDCs i gael swyddogaethau o baratoi cynlluniau datblygu, cyhoeddi tystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon, neu godi tâl CIL.

Felly, pe baem yn awr yn ceisio diwygio'r Biliau cydgrynhoi i adfer y pwerau i roi swyddogaethau cynllunio i UDCs, nid yn unig y byddai hynny'n dasg gymhleth (oherwydd, fel y soniodd fy swyddogion pan wnaethom gyfarfod, byddai'n golygu ailgyflwyno nifer o wahaniaethau ac eithriadau nad oes eu hangen os hepgorir y pwerau), ond byddai'n rhaid i ni hefyd atgynhyrchu bylchau anfoddhaol yn y swyddogaethau y gellir eu rhoi i UDCs yng Nghymru.

Fel yr esboniais pan wnaethom gyfarfod, rwy'n ystyried ei bod yn debygol iawn y byddai angen diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol i sicrhau y gallai CDU yng Nghymru weithredu'n effeithiol wrth gyflawni swyddogaethau cynllunio ar gyfer eu hardaloedd. Dyna oedd barn rhai ymatebwyr i'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar Gynllunio Cyfraith yng Nghymru, ac yn rhan o gefndir argymhelliad y Comisiwn i hepgor y pwerau hyn. Mewn ymateb i gwestiwn ymgynghori 5-12 ar y mater hwn, dywedodd Cymdeithas y Gyfraith a Huw Williams o gyfreithwyr Geldards:

> *"We agree and see no merit retaining these provisions because of a possibility they might be used in the future. It is unlikely that future policy initiatives, albeit they might involve approaches like the ones noted, would be the same in all respects – so the need for adaptation of the legislation should be regarded as almost inevitable. Once this is acknowledged there isn't a great saving from having to legislate "from scratch". That being the case, the balance of advantage lies with removing these provisions and reducing the length of the Code."*[1]

[1] Gweler paragraffau 5.287 a 5.291 o Gyfraith Gynllunio Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru: Ymatebion i'r Papur Ymgynghori, Rhagfyr 2018

Cytunwn â’r farn honno. Dylid nodi bod sefydlu Corfforaethau Datblygu Maer (MDCs) yn Llundain wedi golygu creu fframwaith deddfwriaethol newydd a ddarperir gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, sy'n galluogi MDCs i gael swyddogaethau cynllun datblygu o dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("PCPA 2004"). Yn fwy diweddar, mae Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 ("LURA 2023") yn diwygio'r pwerau i roi swyddogaethau cynllunio i MDCs ac i UDCs yn Lloegr, er mwyn sicrhau y gellir rhoi set fwy cynhwysfawr o swyddogaethau cynllunio i'r ddau fath o gorfforaethau datblygu. (Gweler yr atodiad i'r llythyr hwn am ragor o fanylion.) Mae'r newidiadau deddfwriaethol hyn a wnaed gan Senedd y DU yn dangos yn glir nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau cynllunio yn cael ei hystyried yn foddhaol.

Mae'r problemau hyn gyda'r pwerau presennol i drosglwyddo swyddogaethau cynllunio, ynghyd â'r ffaith nad yw'r pwerau erioed wedi cael eu defnyddio yng Nghymru a'r ymateb cadarnhaol i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar eu hepgor, i gyd yn atgyfnerthu fy marn nad yw'r pwerau bellach o ddefnyddioldeb ymarferol.

Nodaf fod aelodau eraill y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad yn yr adroddiad yr wythnos diwethaf wedi argymell y dylai'r Biliau fynd i'r Cyfnod Terfynol, ond eich bod bellach wedi cyflwyno cynnig y dylid ystyried gwelliannau mewn cam Ystyriaeth Fanwl yn y Senedd. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'n llawn yr argymhelliad y dylai'r Biliau fynd i'r Cyfnod Terfynol. Yng ngoleuni'r rhesymau a nodwyd yn fy ngohebiaeth flaenorol ac a ymhelaethwyd ymhellach arnynt yn ystod ein trafodaeth ac yn y llythyr hwn, byddwn yn eich annog i dynnu'ch cynnig yn ôl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

**Atodiad: deddfwriaeth ynghylch swyddogaethau CDUau**

Dibenion a swyddogaethau cyffredinol CDUau

O dan adrannau 134 a 135 o Ddeddf 1980, mae gan Weinidogion y pŵer i ddynodi ardal fel ardal datblygu trefol, ac i sefydlu corfforaeth datblygu trefol (CDU) i sicrhau adfywio'r ardal.

Mae adrannau 136 a 141-146 o Ddeddf 1980 yn cynnwys pwerau i CDUau gaffael, datblygu a gwaredu tir. Gall gweinidogion drosglwyddo tir i UDCau gan gyrff cyhoeddus eraill, a gallant eu hawdurdodi i gaffael tir yn orfodol.

O dan adrannau 136 a 160-162 o Ddeddf 1980, caiff CDUau wneud benthyciadau at ddibenion penodol, gan gynnwys galluogi caffael a datblygu tir.

O dan adrannau 151-153 o Ddeddf 1980, gellir rhoi swyddogaethau rheoli adeiladu i CDUau a swyddogaethau penodol o dan ddeddfwriaeth tai.

Swyddogaethau cynllunio CDUau: y sefyllfa bresennol yng Nghymru

Mae Rhan 6 o PCPA 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynlluniau datblygu lleol ar gyfer eu hardaloedd. At y diben hwn, ystyr "awdurdod cynllunio lleol" yw cyngor sir neu awdurdod parc cenedlaethol yn unig, felly nid oes gan CDU y swyddogaeth o baratoi cynllun datblygu. O dan adran 74 o PCPA 2004, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo nad yw'r darpariaethau ynghylch cynlluniau datblygu yn gymwys i ardal datblygu trefol, sy'n golygu nad oes rhaid paratoi cynlluniau ar gyfer yr ardal. Ond ni all Gweinidogion drosglwyddo swyddogaethau llunio cynlluniau i'r UDC.

O dan adran 148 o Ddeddf 1980, caiff CDU gyflwyno set o gynigion ar gyfer datblygu tir yn ei ardal i Weinidogion. Gall Gweinidogion wneud gorchymyn datblygu arbennig o dan adran 59 o TCPA 1990 yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu yn unol â'r cynigion. Gallai'r cynigion a'r gorchymyn datblygu ymwneud â datblygiad penodol, neu â chategorïau cyffredinol o ddatblygiad yn yr ardal datblygu trefol neu rannau penodol o'r ardal. (Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cadw gan y Biliau cydgrynhoi.)

Mae adran 149(1) o Ddeddf 1980 yn galluogi Gweinidogion i wneud gorchymyn sy'n darparu ar gyfer CDU i fod yn awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei ardal gyfan neu ran ohoni, mewn perthynas â mathau penodedig o ddatblygiadau, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau Rhan 3 o TCPA 1990 neu'r cyfan. Mae adran 7 o TCPA 1990 yn darparu, yn yr achosion a ddarperir ar eu cyfer mewn gorchymyn o'r fath, mai'r CDU yw'r awdurdod cynllunio lleol yn lle unrhyw awdurdod arall.

O dan adran 149(1) o Ddeddf 1980, gellid rhoi swyddogaethau i CDU wneud gorchmynion datblygu lleol, penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio, addasu neu ddirymu caniatâd, cytuno ar rwymedigaethau cynllunio a gwneud gorchmynion terfynu. Yr effaith fyddai trosglwyddo'r swyddogaethau hynny i'r CDU o'r awdurdod lleol a fyddai fel arall yn awdurdod cynllunio.

Mae adran 149(2) o Ddeddf 1980 yn galluogi gorchymyn o dan adran 149(1) i addasu deddfwriaeth sy'n gymwys i awdurdodau cynllunio mewn perthynas â CDU. Gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i addasu'r darpariaethau iawndal sy'n berthnasol pan fydd caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod neu ei ddirymu. Ni ellid ei ddefnyddio i gymhwyso'r darpariaethau y gall person, yn y sefyllfa honno, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol brynu ei fuddiant mewn tir trwy gyflwyno hysbysiad prynu.

Mae adran 149(3) o Ddeddf 1980 yn galluogi Gweinidogion i roi swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol i CDU o dan ddarpariaethau penodol yn Rhannau 7, 8 a 10 o TCPA 1990, ac o dan ddarpariaethau penodol Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (PLBCAA 1990). Ond mae'r rhestrau o ddarpariaethau pob Deddf yn anghyflawn:

- Mae'r rhestr yn cynnwys rhai o'r darpariaethau gorfodi cynllunio yn Rhan 7 o TCPA 1990, ond nid y pwerau i gyhoeddi hysbysiadau rhybuddio gorfodi neu hysbysiadau stopio dros dro, neu'r swyddogaeth o gyhoeddi tystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon.

- Mae'r rhestr yn cynnwys rhai o ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 8 o TCPA 1990 sy'n ymwneud â diogelu coed ond nid yw'n cynnwys y pwerau i fynd i mewn i dir neu wneud cais am waharddiadau, ac nid yw'r rhestr o ddarpariaethau wedi'i diwygio i adlewyrchu'r newid sylweddol a wnaed gan Ddeddf Cynllunio 2008.

- Mae'r rhestr yn cynnwys holl swyddogaeth awdurdodau cynllunio yng Nghymru o dan Benodau 2 a 3 o Ran 8 o TCPA 1990, sy'n ymwneud â thir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder ac arddangos hysbysebion, ac o dan Ran 10, sy'n ymwneud â phriffyrdd.

- Mae darpariaethau rhestredig PLBCAA 1990 yn cynnwys llawer, ond nid pob un, o ddarpariaethau'r Ddeddf honno sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau cynllunio mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth (sydd bellach wedi'u hailddatgan ar gyfer Cymru yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023).

Mae rheoliadau o dan Ran 11 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn galluogi awdurdodau cynllunio i godi tâl ar CIL, fel modd o'i gwneud yn ofynnol i berchnogion a datblygwyr tir dalu rhai o'r costau sy'n deillio o ddatblygu. Ni all y rheoliadau awdurdodi UDCs i godi tâl CIL.

<u>Swyddogaethau cynllunio CDUau: sefyllfa yn Lloegr nawr ac o dan LURA 2023</u>

Yn Lloegr, yn ogystal â'r bylchau yn y swyddogaethau y gellir eu rhoi i CDUau a ddisgrifir uchod, mae gan y rhestr o swyddogaethau yn Atodlen 29 i Ddeddf 1980 fylchau eraill. Ar hyn o bryd nid yw'r rhestr o ddarpariaethau yn Atodlen 29 yn cynnwys darpariaethau newydd sydd wedi'u mewnosod yn Rhan 7 o TCPA 1990 sy'n ymwneud â gorchmynion gorfodi cynllunio, na darpariaethau newydd ym Mhenodau 3 a 4 o Ran 8 sy'n ymwneud â hysbysebion anawdurdodedig a difrodi mangreoedd. Mae'r holl ddarpariaethau hynny yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

Fodd bynnag, mae adran 174 o LURA 2023 yn diwygio Deddf 1980 i lenwi'r rhan fwyaf o'r bylchau yn y swyddogaethau cynllunio y gellir eu trosglwyddo i UDCau yn Lloegr. Nid yw'r adran honno mewn grym eto, ond mae'n gwneud y diwygiadau canlynol:

- Mae'n diwygio adran 149 o Ddeddf 1980 a Rhan 2 o PCPA 2004 i gynnwys pŵer newydd i roi swyddogaethau CDU i baratoi cynlluniau datblygu.

- Mae'n diwygio Atodlen 29 i Ddeddf 1980 fel bod y rhestr o swyddogaethau o dan TCPA 1990 y gellir eu trosglwyddo i CDU yn cynnwys y pwerau i wneud cais am orchmynion gorfodi cynllunio ac i ddyroddi hysbysiadau rhybudd gorfodi a hysbysiadau stopio dros dro, y swyddogaeth o ddyroddi tystysgrifau o ddefnydd neu ddatblygiad cyfreithlon, a phwerau i gymryd camau mewn perthynas â hysbysebion anawdurdodedig a difrodi mangreoedd.

- Mae'n mewnosod adran 149A newydd yn Neddf 1980, sy'n galluogi CDU yn Lloegr i ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau fel awdurdod cynllunio yn ôl i'r cyngor a oedd â'r swyddogaeth yn flaenorol, ac yn galluogi cyngor o'r fath i roi cymorth i UDC i arfer unrhyw swyddogaethau cynllunio a roddir iddo.

Fodd bynnag, nid yw adran 174 o LURA 2023 yn gwneud unrhyw newidiadau i'r swyddogaethau gorfodi y gellir eu rhoi i CDU mewn perthynas â diogelu coed.

Yn ogystal, byddai Atodlen 12 i LURA 2023 (nad yw mewn grym) yn disodli CIL gyda "ardoll seilwaith" (IL) newydd yn Lloegr, a byddai'n rhoi UDC ar gyfer ardal yn Lloegr y swyddogaeth o godi'r ardoll newydd pe bai'n awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei holl ardal. Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU 2024, cyhoeddodd Llywodraeth newydd y DU nad oedd yn bwriadu mynd â'r IL ymlaen.

Byddai'r newidiadau hyn yn berthnasol i UDCau yn Lloegr yn unig, nid rhai yng Nghymru. Byddent yn galluogi UDCau yn Lloegr i gael set lawer llawnach o swyddogaethau cynllunio, er bod adran newydd 149A o Ddeddf 1980 yn awgrymu efallai na fydd UDCau yn gallu arfer yr holl swyddogaethau hynny eu hunain.

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd)**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Chwefror 2026**

Cyflwynwyd y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) (“y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 16 Medi 2025. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar rai elfennau o’r Bil, ac ar 2 Hydref 2025, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar gyfer y Bil gerbron y Senedd.

Dilynwyd hyn gan Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â gwelliant gan Lywodraeth y DU i’r Bil, a osodwyd ar 11 Rhagfyr 2025.

Ar 18 Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad adroddiad ar Femorandwm Rhif 1 (a osodwyd ar 2 Hydref 2025).

Ar hyn o bryd, bwriedir cynnal dadl ar yr LCM yn y cyfarfod llawn ar 24 Mawrth 2026.

**1. Cyflwyniad .......... 3**

**2. Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor .......... 3**

Casgliad 1. .......... 3

Casgliad 2. .......... 3

Casgliad 3. .......... 4

Argymhelliad 1. .......... 4

Argymhelliad 2. .......... 5

Argymhelliad 3. .......... 6

Argymhelliad 4. .......... 7

Argymhelliad 5. .......... 7

Argymhelliad 6. .......... 8

Argymhelliad 7. .......... 8

Argymhelliad 8. .......... 9

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) yn gymhleth o ran ei natur drawsbolisi a, chan ystyried bod hynt y Bil yn uchelgeisiol o gyflym, mae Llywodraeth Cymru yn ymateb mor gyflym ac effeithlon â phosibl.

Diolchir i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd). Mae'r ymatebion i bob un o argymhellion yr Adroddiad yn unigol wedi eu nodi isod

## 2. Ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor

Mae'r ymateb hwn yn mynd i'r afael â thri chasgliad ac wyth argymhelliad yn yr Adroddiad, ac mae'n defnyddio'r rhifau cymalau yn y fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.

### Casgliad 1.

Nododd y Pwyllgor:

Rydym yn cytuno ag asesiadau Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog, fod angen cydsyniad y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29, ar gyfer cymalau 1 i 5; cymalau 7 i 10; cymal 12; cymalau 14 i 16; cymal 18 (yn rhannol); cymalau 20 i 25; Atodlen 1 (Rhannau 1, 2 a 6); ac Atodlenni 2 i 4 a 6 (yn rhannol).

**Ymateb**: Nodwyd y safbwynt hwn.

### Casgliad 2.

Nododd y Pwyllgor:

Yn groes i farn Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, credwn fod angen cydsyniad y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29, ar gyfer cymalau 11, 13, 19 a 26, a Rhan 3 o Atodlen 1.

**Ymateb**: Nodwyd y safbwynt hwn. Fodd bynnag, yn unol â'r diwygiadau a gyhoeddwyd ar 12 Ionawr, bydd cymal 11 yn gymwys i Gymru fel y mae i Loegr. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cymal 11, fel y'i diwygiwyd, yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29. Gosodwyd LCM atodol sy'n adlewyrchu'r safbwynt hwn ar 27 Ionawr 2026.

### Casgliad 3.

Nododd y Pwyllgor:

Oherwydd ei arwyddocâd a'i berthnasedd i faterion datganoledig, dylai Llywodraeth y DU ymgysylltu'n well ac yn fwy ystyrlon â Llywodraeth Cymru wrth i'r Bil hwn fynd drwy'r cyfnodau sy'n weddill yn Senedd y DU. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.

**Ymateb:** Nodwyd y safbwynt hwn.

### Argymhelliad 1.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru egluro ym mha "fforymau priodol", ac â pha randdeiliaid, y mae wedi trafod y Bil.

**Ymateb:** Derbyn

Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at randdeiliaid ym mis Rhagfyr ynglŷn â chyflwyno'r Bil ac ymestyn cymal 11 i Gymru. Roedd hyn yn cynnig ymgysylltu pellach gan gynnwys yn benodol â'r canlynol:

- Cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru
- Adrannau anweinidogol
- Cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru
- Comisiynwyr
- Estyn
- Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG
- TUC Cymru
- UNSAIN
- GMB

- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Unite
- Yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- USADW
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)
- PCS
- CBI Cymru
- Y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
- Prifysgolion Cymru
- MAKE UK
- Addysg Oedolion Cymru
- Y Sector Gwirfoddol
- Y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus
- CLlLC

Mae arweinwyr polisi a Gweinidogion wedi cael eu hannog i ymgysylltu a rhannu â rhanddeiliaid eraill fel y maent yn ystyried sy'n briodol.

**Argymhelliad 2.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru:

i. egluro ei rôl o ran sicrhau yr ymgynghorir â chyrff cyhoeddus Cymreig datganoledig perthnasol ar y Bil, gan gynnwys a yw wedi/a yw'n bwriadu cydgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod ymgynghoriad digonol yn cael ei gynnal gan Lywodraeth y DU ei hun;
ii. egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd, os o gwbl, i sicrhau bod unrhyw faterion a nodir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn gwelliannau i'r Bil os nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu ymgysylltu'n uniongyrchol â chyrff yr effeithir arnynt; a
iii. cyflwyno adroddiad i'r Senedd ar sut yr ymdriniwyd yn y Bil â materion a nodwyd gan gyrff cyhoeddus datganoledig, cyn i'r Senedd drafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol (gweler pwynt iii)

Mewn perthynas â'r tri phwynt a nodwyd gan y Pwyllgor:

i. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau yr ymgynghorir â chyrff cyhoeddus Cymru ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth. Mae swyddogion Llywodraeth y DU yn datblygu cynllun gweithredu, a byddwn yn sicrhau bod hwn wedi ei deilwra ar gyfer y cyd-destun Cymreig. Mae sesiwn yn cael ei threfnu â swyddogion a chyrff cyhoeddus Cymru a fydd yn caniatáu iddynt godi materion yn uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth y DU.
ii. Wrth i faterion ddod i'r amlwg, mae'r materion hynny wedi cael eu codi â swyddogion Llywodraeth y DU a chyfarfodydd priodol wedi eu cynnull rhwng swyddogion i drafod.
iii. Ymatebir yn briodol i unrhyw faterion a nodir gan gyrff cyhoeddus Cymru y byddant yn cyfathrebu amdanynt â Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Pan fo'n bosibl, hysbysir am unrhyw faterion a nodwyd a sut yr aed i'r afael â hwy yn y Bil gan Lywodraeth y DU cyn y ddadl yn y Senedd. Serch hynny, dylai'r Pwyllgor nodi bod y Cyfnod Adrodd wedi ei atal dros dro hyd nes rhoddir ystyriaeth bellach gan Lywodraeth y DU i gymhwyso'r ddyletswydd gonestrwydd i'r gwasanaethau cudd-wybodaeth.

**Argymhelliad 3.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y pryderon a godwyd gan CLlLC ynghylch cyfundrefnau safonau a allai wrthdaro o ganlyniad i'r Bil hwn, a chyflwyno adroddiad i'r Senedd ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny cyn i'r Senedd drafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y materion a godwyd gan CLlLC, sydd wedi bod yn destun trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r ddeialog barhaus ynglŷn â darpariaethau'r Bil. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â CLlLC i drafod y materion a godwyd ganddynt yn eu tystiolaeth ac wedi cytuno i gydweithio â llywodraeth leol i gytuno ar y camau gofynnol i sicrhau pontio llyfn o'r trefniadau presennol i'r trefniadau newydd.

**Argymhelliad 4.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'i chyfrifoldebau am sicrhau y gweithredir y Bil yn effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gefnogi awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yr effeithir arnynt i sicrhau bod eu codau ymddygiad presennol a dogfennau safonau perthnasol eraill yn cael eu diwygio, os oes angen, er mwyn iddynt gydblethu'n effeithiol ag unrhyw ddarpariaethau yn y Bil os caiff ei ddeddfu.

**Ymateb**: Derbyn.

Bydd y dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol a chodau ymddygiad yn gyfrifoldeb cyfreithiol ar yr awdurdodau lleol a chyrff eraill er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys ymgorffori darpariaethau mewn dogfennaeth leol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff yng Nghymru i weithredu trefniadau priodol yn unol ag unrhyw ganllawiau ar gyfer y DU gyfan. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi cadarnhau eu bwriad i gyhoeddi canllawiau pellach yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y cyd-destun Cymreig a, phan fo angen, byddant yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill i nodi'r newidiadau gofynnol i'r canllawiau presennol sy'n benodol i Gymru i sicrhau cysondeb priodol.

**Argymhelliad 5.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am eglurhad gan Lywodraeth y DU ynghylch y rhesymau pam y mae cymalau 12 a 13 (sy'n ymwneud â'r troseddau o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus) yn rhychwantu Cymru yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, ond nid Gogledd Iwerddon na'r Alban.

**Ymateb**: Derbyn

Ar 12 Ionawr, cyhoeddwyd gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil a fydd yn ymestyn Rhan 3 o'r Bil (Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus) i'r Alban a Gogledd Iwerddon Gan ragdybio y bydd y gwelliannau hynny yn cael eu pasio, bydd Rhan 3 yn gymwys i'r DU gyfan.

**Argymhelliad 6.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'i thrafodaethau parhaus ar y Bil a fydd yn llywio ei hargymhellion i'r Senedd ynghylch cydsyniad, dylai Llywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r Bil yn rhoi unrhyw bwerau cychwyn i Weinidogion Cymru, nac yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn darpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig.

**Ymateb**: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r cwestiwn hwn â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw hwn, ac felly gall cychwyn fod yn fater i'w weithredu ar sail y DU gyfan i adlewyrchu'r sefyllfa honno. Ymddengys mai rhai sy'n ymwneud ag ymchwiliadau penodol yn yr Alban (Ymchwiliadau yn yr Alban i ddamweiniau angheuol a marwolaethau sydyn) a Gogledd Iwerddon (Ymchwiliadau o dan Ddeddf Crwneriaid (Gogledd Iwerddon) 1959) fel y nodir yng nghymal 25(5) yw'r unig eithriadau.

**Argymhelliad 7.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'i thrafodaethau parhaus ar y Bil a fydd yn llywio ei hargymhellion i'r Senedd ynghylch cydsyniad, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

i. a oes unrhyw bwerau cydredol neu gydredol plws yn y Bil heblaw am y rhai a nodwyd yn yr adroddiad hwn; a

ii. ii. cyfiawnhad Llywodraeth y DU dros gymryd y pwerau hyn.

**Ymateb**: Derbyn

Pwerau cydredol plws eraill

Nid oes unrhyw bwerau cydredol neu gydredol plws yn y Bil y tu hwnt i'r rhai a nodwyd gan y Pwyllgor.

Cyfiawnhad Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU am y cyfiawnhad hwnnw ac mae'n aros am ymateb.

**Argymhelliad 8.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gyfiawnhau sut y mae pob pŵer cydredol neu bŵer cydredol plws yn y Bil y mae'n argymell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad ar ei gyfer yn "achos eithriadol" fel y nodir yn ei hegwyddorion ar ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig.

**Ymateb**: Derbyn

Mae pwynt bwled 2 o baragraff 4 o Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig yn datgan:

*"Os bydd Gweinidogion Cymru, mewn achosion eithriadol, yn cytuno y dylid creu pwerau cydredol, dylai pwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r mecanweithiau cydsynio perthnasol ac i'r eithriadau cysylltiedig o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel nad yw'n ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad ar gyfer dileu'r pwerau yn y dyfodol."*

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod pob un o'r pwerau cydredol plws yn y Bil yn eithriadol at ddibenion y paragraff uchod. Mae pob un ohonynt yn ffurfio rhan o system newydd ac anarferol o gyffredinol o ddyletswyddau cyffredin a osodir ar lawer o gyrff cyhoeddus ledled y DU. Mae'n gwneud synnwyr bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i ddiwygio'r swyddogaethau hyn oherwydd eu bod yn ymestyn ar draws y DU gyfan.

At hynny, mae rhai o'r swyddogaethau sy'n ymwneud, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â chymorth cyfreithiol, sy'n fater a gedwir yn ôl (mater y mae Llywodraeth y DU yn unig yn ymdrin ag ef). Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall pa newidiadau i'r system o dan y Bil all fod yn ofynnol o ganlyniad i'r effaith ar y system cymorth cyfreithiol, os o gwbl.

Pan fo'n berthnasol, mae'r sefyllfa gyfansoddiadol a'r setliad datganoli yn cael eu diogelu'n ddigonol drwy ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lynne Neagle MS
Cabinet Secretary for Education

3 February 2026

Supplementary Legislative Consent Memorandum (Memorandum No 4): Children's Wellbeing and Schools Bill

Following its laying on 16 January 2026, we were due to consider our report on the above Memorandum yesterday in readiness for a debate scheduled for today on the relevant legislative consent motion.

We understand that the debate has been postponed to 3 March 2026 and that a further supplementary consent memorandum will be forthcoming. As a result, the purpose of this letter is to seek clarification on a number of issues arising from Memorandum No. 4; our original intention had been to seek that clarification through recommendations, which we hope you would have addressed in the debate. The clarification we would like to receive is as follows:

1. Please can you confirm whether the amendment referred to in paragraph 24 of Memorandum No. 4 has now been tabled and if it will be included in the further supplementary consent memorandum now expected?

2. Memorandum No. 4 refers to a regulation-making power contained in amendments to clause 32, relating to the estimate of time which a child receives education from parents or other providers. It is not clear from Memorandum No. 4 whether this is a new regulation-making power or which Senedd scrutiny procedure will be applied to such regulations.

   Please can you confirm the scrutiny procedure which will apply to the making of regulations under clause 32 of the Bill should amendments to that clause be agreed at House of Lords Report Stage?

3. Amendment 244 provides the Welsh Ministers with a regulation-making power to make consequential provision (a new clause proposed after clause 64). We note that this amendment addresses recommendation 4 of our first report. However, Memorandum No. 4 is silent on the Senedd scrutiny procedure to be applied to such regulations. It appears to the Committee that the Senedd annulment procedure will be applied, unless the regulations amend primary legislation, in which case the Senedd approval procedure will be applied.

   Please can you confirm the scrutiny procedure which will apply to the making of regulations under the new clause to be inserted after clause 64 by amendment 244, should it be agreed at House of Lords Report Stage?

4. Please could you confirm:

   a. which amendments in Memorandum No. 4 have been considered in the House of Lords and the outcome of that consideration;

   b. which amendments in Memorandum No. 4 have yet to be considered and when you expect that to happen;

   c. in relation to bullet point (ii), if there are amendments yet to be considered, what this means in terms of the consent being sought for them through Memorandum No. 4?

5. In relation to any amendments to the Bill that are to be the subject of a fifth memorandum, please can you ensure that any such memorandum includes information stating whether such amendments will have been considered by the time of the consent motion debate on 3 March 2026 and if not, please can you explain what this means in terms of the consent being sought from the Senedd for them?

Please can you provide a response to these questions by Thursday 19 February 2026.

I am copying this letter to Buffy Williams MS, Chair of the Children, Young People and Education Committee

Yours sincerely,

Mike Hedges

Mike Hedges
Chair

**Email received 3 February 2026 from the Greyhound Board of Great Britain in relation to the Prohibition of Greyhound Racing (Wales) Bill.**

**To:** Delyth Jewell MS, Chair of the Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

**CC:** Mike Hedges MS, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee

Dear Chair,

We were disappointed that the Committee did not approve the amendments tabled by James Evans MS during the recent Stage 2 reporting.

We fully respect that it is ultimately the decision of Members whether to approve any amendments. However, we note that the amendments in question directly aligned with the recommendations of both the Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee and the Legislation, Justice and Constitution (LJC) Committee under Stage 2 scrutiny.

Specifically:

**Culture Committee:**

- Requested that the Welsh Government undertake more comprehensive assessments of the economic and social impacts of the ban before it takes effect.
- Highlighted the need for clearer data on welfare outcomes, including injuries, fatalities, and post-racing care.

**LJC Committee:**

- Raised concerns about poor legislative practice in introducing the Bill before all relevant impact assessments had been completed, particularly where the proposal could affect human rights.
- Requested that a written statement on compatibility with the European Convention on Human Rights (ECHR) be published before voting on the Bill's principles.

In light of these recommendations, and given that we are yet to have seen any recommendations from the Welsh Government appointed Implementation Group, we would be grateful if the Committee would consider allowing further evidence from third parties to be submitted in support of the amendments, so that they can be reconsidered.

Additionally, we would welcome any further information regarding the amendment stage as part of Stage 3 of the Bill process, including the timeline available for Members to table amendments at this stage.

We appreciate your consideration of this request and look forward to your guidance on how the concerns of the Committees can be addressed.

Kind regards,

**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/69/26

Elin Jones MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

5 Chwefror 2026

Annwyl Elin,

**Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

Cyn trafodion Cam 4 ar 10 Chwefror, mae'n bleser gennyf roi gwybod I chi, ar ôl ymgysylltu â Llywodraeth y DU, bod cydsyniad Gweinidog y Goron wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon